638 Gwyndaf a Janet John, Gerrards Cross, **Swydd Buckingham**

51 Canolfan Arddio Tafarnspeit - Paul Webb, **Tafarnspeit**

**Talacharn**

20 Hywel Davies, Plymiwr
566 Ann Harry, Sunnyhill Cottage, Heol Holloway
584 Pam Jones, 14 Stryd Fictoria

368 Janet James, **Talyllychau**
677 June Walters, 15 Parc Starling, **Tre Ioan**

**Trelech**


145 Beryl a Meirion Thomas, Penlan
340 Cedric Davies, Awelfa
396 Meinir Davies, Plasnewydd
443 Dafydd Evans, Ffynnonlwyd
469 Delyth Jones, Treto Isaf
470 Edith Ridley, 1 Caerwenog
484 Alyson Harries, Dinas Fach
494 Eric Harries, Dinas Fach
525 Bobbie Evans, Ffynnonlwyd
540 Islwyn a Novella Walters, Nantycyw
546 Maureen Rees, Blaendewi Fach
640 Eifion a Menna Thomas Jones, Brynsiriol
664 Joy Anthony, Glyndewi

472 Hafwen John, Preseli, 28 Cae Gadlas, **Y Bala**

**Y Bontfaen**

474 Sian Elin Jones, Y Grawndy, Llantriddyd
613 Bryan a Mearl Owen, 5 Tyla Rhosyr

| | | |
|---|---|---|
| 119 M.E. a L.H. Evans | 618 Christian Pris | Dim cyfeiriad i'r enwau yma |
| 162 E.M. Davies | 619 T & S Phillips | |
| 616 R. Thomas | | |




## TORTH SAWRUS

**Cynhwysion:-**
½ pwys o gig selsig
½ pwys o gig ffowlyn wedi ei falu
1 winwnsin wedi ei dorri'n fân
1 llwy ford o bersli
Tun bach o fadarch mewn hufen
¾ peint o saws gwyn.
Halen a phupur

**DULL**
Cymysgwch y cyfan mewn bowlen
Rhowch y gymysgedd mewn tun bara
Pobi mewn ffwrn 190°C/ 400F am 45 munud.


'CRUMBLE AFAL a 'Pears'
2 afal mawr (Bramley)
2 peren
Sest a sudd ½ lemwn
1 llwy ford o siwgwr
½ llwy de o cinnamon

Crumble:-
6 owns o flawd plaen
3 ½ owns o fenyn
3 ½ owns o siwgwr caster
1 llwy ford o siwgwr Demerara

Cymysgwch y cyfan a'i roi ar ben y ffrwythau.
Pobwch am tua 40 munud.

## COLOFN GARDDIO

Yr ydych siwr o fod wedi sylwi fod y golofn arddio ddim yn y ddau rifyn blaenorol o'r Cardi Bach ac yr ydym yn gweld ei eisiau yn fawr. Yn anffodus, mae John Davies, ein colofnydd, wedi bod yn ddi-hwyl yn ystod yr wythnosau olaf yma ac ar ran pawb, dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

**C J Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390


# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth ar gyfer y mis. Gobeithio y byddwch chi'n ei mwynhau.

Pob lwc, *Albie*

**Idiomau:-**

| | | |
|---|---|---|
| Tipyn o dderyn | Bwgan brain | Un wennol ni wna wanwyn |
| Adar o'r unlliw | Traed brain | Sefyll fel pelican |
| Llygad barcud | Dim gobaith caneri | Hen 'sguthan |
| Fel yr hed y fran | Piso dryw yn y mor | Fel y gog |

Llenwch y bylchau a'r ymadroddion addas:-

1. Hanner cant o swyddi newydd yn dod i'r ardal? Dim ond____ _____ _____ ____ ____ydy hynny pan gofiwch fod dwy fil wedi colli eu gwaith llynedd.
2. Rhoiodd y ffermwr _____________ ________ yn y cae i gadw'r adar draw.
3. Dan ni wedi cael tipyn bach o newyddion da heddiw, ond peidiwch ag ymlacio gormod_________ _________ _________ _________ _________
4. _____ _____ ydy'r athrawes newydd. Mae hi'n pigo ar y plant lleia drwy'r amser
5. Roeddwn i'n_______ _________ _______ ynghanol y neuadd; doeddwn i ddim yn gwybod ble i fynd nac a phwy i siarad.
6. Roedd y cynghorydd, y prifathro, y gweinidog a rheolwr y banc yn eistedd gyda'i gilydd yn y rhes flaen __________ __________
7. Ennill y jacpot? Does __________ ___________ ___________ gyda chi!
8. Mae'r bos yn cadw ___________ ___________ ar ei staff bob munud.
9. __________ __________ __________ ydy Dic: mae e'n tynnu coes pawb.
10. Mae sgrifen fel __________ __________ gyda ti. Alla id dim deall gair.
11. Rhyw ddeg milltir ydy hi _________ _________ _________ _________ _________ ond mae'r ffordd yn ofandwy o droellog.
12. Aeth y parti ymlaen tan oriau mân y bore, ond roedd pawb _________ __________ __________

**Cyfraniad**

Mrs Ann Jones a'r teulu, San Clêr

£20

*Diolch yn fawr*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN, CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn, Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




Cyngor Cymuned Llanwinio
yn eisiau
CLERC
Am ragor o fanylion cysylltwch â:
clerk@llanwiniocommunitycouncil.com

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw

Tro cangen Gronw oedd hi eleni i fwydo'r beirniaid yn yr Eisteddfod Gylch a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, 11eg o Fawrth yn Ysgol Griffith Jones. Diolch i'r aelodau am y lluniaeth ac i'r tair bu yn gweini.

Cynhaliwyd bore coffi yn festri Capel Ramoth Cwmfelin Mynach ar fore Iau 30ain Mawrth. Y bwriad oedd codi arian at Eisteddfod yr Urdd ac i'r gangen. Cyflwynodd y llywydd Meinir Eynon, y Cynghorydd Jean Lewis, oedd yn agor y bore a chroesawodd ei gŵr Ambrose. Gwnaeth longyfarch Jean am yr holl waith y mae yn ei wneud yn ein cymuned ac am hyrwyddo ein diwylliant. Yn wir dyna oedd ei neges, y pwysigrwydd ein bod yn dal ati yn ein cymunedau. Cafwyd bore hwylus iawn a chodwyd swm anrhydeddus. Diolch i Jean am ei rhodd hael, i'r aelodau a ffrindiau am y cacennau; i'r rhai gyfrannodd gwobrau raffl ac i'r gymuned am y gefnogaeth. Diolch hefyd i Wenfys am drefnu'r fasged blodau.



Meinir Eynon yn cyflwyno basged o flodau i'r Cyng. Jean Lewis wedi iddi agor y Bore Coffi. Hefyd yn y llun mae Wenfys Rees a drefnodd y blodau.

Edrychwn ymlaen at ein cyfarfod nesaf ar Ebrill 27ain pan fyddwn yn ymweld â Jin Talog.

## Cangen San Cler

Llywyddwyd y cyfarfod gan Beti-Wyn a chroesawyd 19 o aelodau i Westy'r Picton, Llanddowror.

Cydymdeimlwyd â Margaret Rees ar golli brawd-yng-nghyfraith.

Diolchwyd i bawb a gefnogodd Gŵyl y Gân Gŵyl Ddewi ym Methlehem Newydd.

Wedi trafod rhai materion busnes croesawyd y siaradwraig wadd, sef Natalie Jones. Roedd wedi siarad am ei bywyd gyda ni y llynedd ac wedi cynnig dod nôl i roi arddangosiad o fwyd Jamaica. Soniodd am rai o fwydydd a ffrwythau sy'n nodweddiadol o Jamaica ac yna cafwyd arddangosiad o greu "patties" cyrri a plantain wedi eu ffrio.

Diddorol iawn oedd gwylio Natalie'n paratoi'r toes a'r llenwad gyda llawer o turmeric yn y toes a chynhwysion amrywiol yn y llenwad. Wrth aros iddyn nhw goginio cafwyd cyfle i edrych ar luniau o wyliau diweddar Natalie yn Jamaica. Wedi'r coginio, blasu, a roedd y patties yn wirioneddol flasus, hefyd y plantain melys. Gwledd yn wir a Natalie yn eu paratoi mor ddi-drafferth.

Diolchwyd i Natalie, ar ran y gangen gan Rhian White. Diolchodd hefyd i Westy'r Picton am ganiatau i ni gyfarfod yno a darparu cwpaned o de ac am adael i Natalie ddefnyddio'u cegin.

Roedd Lilwen wedi paratoi trefniant blodau yn wobr raffl ac fe'i henillwyd gan Rhian Williams.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
gerald@geraldblainassociates.co.uk
geraldblainassociates.com
@GBAssociates1

**RUSSELL THOMAS**
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR


Copper Beech, Efailwen, Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

# RHODRI'N SERENNU AR Y SGRIN



Braint ac anrhydedd i Rhodri Evan o Efail-wen oedd cael chwarae rhan y Cymro pwysicaf ers Owain Glyndŵr, mewn ffilm fydd ar gael ar gof a chadw – 'Y Sŵn' - yn cyfleu hanes cythryblus sefydlu S4C ddeugain mlynedd yn ôl. Wel, roedd Gwynfor Evans yn barod i aberthu ei fywyd yn enw'r genedl.

Ac roedd goslefu a llefaru pwyllog Rhodri yn union fel y cofiwn Gwynfor. Hyd yn oed osgo'r corff. Roedd yr un urddas tawel yno hefyd er gwelsom fod yna bryder ar adegau a bod geiriau Gandhi a Martin Luther King yn cynnig cysur ac arweiniad yn eu tro. Llwyddodd Rhodri Evan fynd o dan groen ein harwr yn ei bortread.

**Cyfleu'r cymeriad**

"Roedd e'n fwy o fynd lawr y llwybr o ffeindio'r "*essence*" neu gynrychiolaeth o'r person - ei "*humanity*" yn y cymeriad. Ti jest yn mynd ar ôl y dyn 'dan ni'n wybod. Mae 'da ni gyd rhyw fath o berthynas 'da fe fi'n credu, gan fod e'n rhan o'n bywydau ni. Mae'n rhan arwyddocaol o hanes ail ran yr 20fed ganrif ac wedi llywio Cymru fel ry'n i'n ei nabod hi nawr.

"Nes i wylio gymaint o'i areithio a gallwn i - ar YouTube, archifau'r BBC, darllen (fel mae'n digwydd mae gen i dipyn o lyfrau roedd e wedi'u hysgrifennu). Digwydd bod, nes i chwarae rhan Gwynfor yn nrama *Porth y Byddar* yn Eisteddfod yr Wyddgrug 2007 - drama oedd ynglŷn â Thryweryn yn benodol" meddai Rhodri.

**Plufyn yn ei gap**

Roedd y perfformiad yn sicr yn blufyn yng nghap ein Rhodri ac yn brawf o'i allu amryddawn fel actor o gofio iddo chwarae rhannau go wahanol yn y gyfres 'Hyd y Pwrs' wrth gyfleu hiwmor abswrd rhai o fois Crymych.

Yr hyn sy'n ddiddorol wrth i ni ddathlu deugain mlynedd ers sefydlu'r sianel, sydd yma i aros, yw bod y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Morris o Aberafan, mewn llythyr yn rhifyn mis Mawrth o'r cylchgrawn Barn, wedi beirniadu'r hyn a ystyria'n "ddiffyg dychymyg rhai o'r rhaglenni".

**Ail-ddarlledu**

Nododd hefyd iddo gyfrif 180 o ailddarllediadau yn yr wythnos yn cychwyn ar 28ain Ionawr a'i fod wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Is-weinidog dros Ddiwylliant yn Nhŷ'r Arglwyddi a'i fod wedi gwasgu am ddarparu mwy o arian o lawer ar gyfer creu rhaglenni.





DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Bysiau Cwm Tâf
"Os am deithiau hwylus braf
Dewch da ni ar fws Cwm Tâf"
PENRHEOL, HEN-DY-GWYN, SA34 0NH
01994 240 908
www.tafvalleycoaches.co.uk

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dŵr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

# MEIDRIM

**Henoed**

Croesawodd Glyn James, y Cynghorydd Jean Lewis â ddaeth i siarad am ailgylchu. Clywsom ganddi am y gwahanol ffyrdd o gael gwared ein sbwriel. Buom yn gwrando'n astud arni a cheisio cofio popeth a ddywedodd. Yn wir, roedd cymaint o bethau i'w hystyried fel y gwnaethom ddarganfod wrth wneud y cwis a baratowyd ganddi!
Diolchwyd iddi gan Meirion Morris.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar Fai 2il yn Neuadd Ieuenctid Meidrim pan fydd y Parch Wyn Maskell yn ein diddori.
Wrth y te - Gwynfor Price, Glen Lewis, Lyn Herbert a Lawrence Thomas.
Raffl - Steph Davies, Doreen Thomas, Sheila Jones a John Lewis.

# BLAENWAUN

**Moriah:** Claddwyd llwch Tom Lewis (brawd hynaf y diweddar Parchedig Dewi Lloyd Lewis a Martin Lewis) a llwch ei wraig Brenda ym mynwent Moriah ar fore Llun yr 20fed Mawrth. Bu Tom a'r teulu byw yn Bwthyn y Rhos, Blaenwaun ond roeddent wedi ymgartrefi ers blynyddoedd yng Ngaerloyw.

Daeth y teulu ynghyd i dalu'r gymwynas olaf. Pleser oedd gan yr aelodau eu croesawu i'r fynwent ac i'r festri yn dilyn y claddedigaeth, am bryd o fwyd.
Diolch i'r aelodau fu'n brysur yn paratoi'r festri, glanhau tu allan a pharatoi a gweini'r bwyd.

Ar fore Gwener 24ain Mawrth cynhaliwyd angladd y diweddar Pam Evans, Sibrwd y Dail, am 11o'r gloch gyda'r Parchedig Gareth Ioan yn gwasanaethu. Roedd Pam bellach wedi treulio saith deg mlynedd yn yr ardal. Er nad oedd yn aelod, roedd wastad yn barod i helpu gyda unrhyw weithgaredd yn y Capel, yn enwedig ar y festri. Roedd yna le arbennig yn ei chalon i Moriah. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Michael, Marina, Rhodri, Heledd, Pat a Gareth. Mae bwlch mawr ar ei hôl.

Dyunwn yn dda i fam y Parchedig Gareth Ioan sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Trefn oedfaon mis Mai
7fed: 10.30 Undebol Parchedig Gareth Ioan.
21ain: 2 o'r gloch Cymun. Arwel Evans.

**Diolch**
Dymuna teulu y diweddar Pam Evans, Sibrwd y Dail, ddiolch am bob arwydd o gymorth a chydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion i Feddygfa Taf, Hendygwyn ar daf, er cof amdani.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**

Cafwyd gwasanaeth Mr Lyndon Lloyd o Beulah yn oedfa'r Cymundeb ar Sul, Ebrill 2il. Fel arfer, bu'r Parchg Huw George yn cynnal gawasanaeth ar ail Sul o'r mis. Diolch i'r ddau.

Oedfaon mis Mai
7fed: Cymundeb - Y Parch. Alwyn Daniels -10.30
14eg: Oedfa -Y Parch. Huw George - 2.00

**Cymanfa**

Cynhelir cynhadledd flynyddol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yng nghapel Ebeneser, Llandeilo ar ddydd Mawrth, 16eg o Fai.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Gwynlais a Mary Phillips a'r teulu ar farwolaeth sydyn chwaer yng-nghyfraith, sef Christine Phillips, Pwlltrap.

Diolch
Dymuna Roy Llewellyn ddymuno llawer o ddiolch i bawb a gyfranodd mor hael er cof am Rhoswen. Roedd Capel Ramoth a Chanolfan Ffynnonwen yn meddwl cymaint iddi ac yn arbennig yr atgofion melys am yr holl ffrindiau oedd ganddi ar hyd ei hoes. Diolch o galon.

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**

Gwasanaethwyd gan y Parchg Guto Llywelyn yn oedfaon y Cymun ym misoedd Chwefror, Mawrth ac Ebrill. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis a Dewi Griffiths yn yr oedfaon.

Cydymdeimlwm yn ddwys â Michael, Marina a Rhodri Evans, Maesyrhâf, ar farwolaeth mam, mam-yng-nghyfraith a mamgu annwyl sef Mrs Pam Evans, Sibrwd-y-Dail, Blaenwaun.

arwyddion
eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735
info.ifanlewis@gmail.com

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Cydymdeimlwn hefyd â Sheila, Raymond a Tomos Rees, Tŷ Hawddgar ar farwolaeth ewythr sef Mr Howard Gibbon, Pwllywhead, Hendygwyn.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Mae'n dda arbrofi gydag oedfaon gwahanol weithiau. A dyna a wnaethom ni yn ddiweddar trwy gynnal oedfa Sul y Blodau ym Mynwent Soar, Hendy-gwyn yn hytrach nag yn y capel. Arhosodd y tywydd yn sych a chafwyd oedfa yn y fynwent cyn i bawb fynd i Regwm am baned trwy wahoddiad Eryl Rosser.



Oedfa Sul y Blodau yn Mynwent Soar



Paned ar ôl oedfa Sul y Blodau

Pam Collis o Guildford, ond gynt o Hendy-gwyn, oedd y wraig wadd yn Te Prynhawn y Gymdeithas yn ddiweddar. Cafwyd anerchiad hyfryd ganddi yn adrodd ei chysylltiad gyda chapel y Tabernacl. Mae Margaret Titterton yn ymddeol ar ôl nifer o flynyddoedd fel ysgrifennydd gweithgar a chydwybodol y Gymdeithas a diolch iddi am ei gwaith.



Pam Collis (ar y chwith) a Margaret Titterton

Ar Sul y Pasg cyflwynwyd anrheg i Meurig Davies a hynny ar ôl iddo ymddeol ar ôl 35 mlynedd o edrych ar ôl mynwent Soar a 26 mlynedd o fod yng ngofal y gwres a bod yn 'handy man' y capel yn trwsio beth bynnag oedd angen ei drwsio. Diolch yn fawr iddo am ei holl waith dros y blynyddoedd.



Meurig Davies yn derbyn anrheg wrth y gweinidog ar ran y capel

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon
Cyflogau
Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod yn ddiweddar sef Mr Myrddin Parry, Erw Lon, Llangynin. Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda Menna yn ei cholled. Hefyd mae nifer o aelodau wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac rydym yn dymuno gwellhad buan iddyn nhw gyd.

O edrych ymlaen byddwn yn cynal ein Cyrddau Blynyddol ddiwedd Ebrill dan ofal Parch. Irfon Roberts, Aberteifi. Ac yna ym mis Mai byddwn yn cynnal oedfa Cymorth Cristnogol yn ogystal ac yn croesawu criw Coda Ni, Pencader. Croeso cynnes i bawb i bob oedfa a dyma'r rhestr yn llawn.

Ebrill 30ain: 10.30 a 14.30 Cyrddau Blynyddol dan ofal Parch. Irfon Roberts, Aberteifi

Mai
7fed: 9.30 - Oedfa Gymun
14eg: 11.00 - Oedfa Wythnos Cymorth Cristnogol
21ain: 10.30 - Oedfa yng ngofal criw Coda Ni, Pencader
28ain: 11.00 - Oedfa

## Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Y siaradwyr gwadd oedd David Thomas a'i bartner, Anthony Rees, cynhyrchwyr yr enwog JIN TALOG.

Estynnodd y Cadeirydd, Claude James, groeso cynnes iddynt a'u cyflwyno fel dau sydd wedi troi'u cefn ar yrfaoedd llewyrchus - David o fyd addysg ac Anthony o fyd busnes ac wedi prynu fferm fach, sef Rhyd y Garreg Ddu yn Talog. Maent hefyd yn cadw nifer o wahanol anifeiliaid a thyfu llysiau organig.

Mae'r ddau wedi dysgu ac yn rhugl yn y Gymraeg a cafodd David ei anrhydeddu yn Eisteddfod Genedlaethol 2021 fel Dysgwr y Flwyddyn a chael ei dderbyn i'r Orsedd a'i urddo â'r Wisg Wen.

Mae JIN TALOG yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio'r cynhwysion gorau posib a gyda dŵr pur sy'n tarddu ar y fferm. Aethpwyd a ni rwy'r drwy'r broses o gynyrchu'r Jin ac mae'n cael ei werthu a'i ddosbarthu drwy Gymru ac yn wir drwy'r byd wrth i gwsmeriaid archebu ar lein ac mae popeth yn cael eu hysbysebu a'u labeli'n ddwy-ieithog.

Mae'r ddau i'w canmol am eu Cymreictod ac mae'r balchder eu bod wedi dysgu Cymraeg yn amlwg.

Cafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i flasu'r Jin a mwynhawyd y noson yn fawr iawn yn eu cwmni. Hanes busnes llwyddiannus wedi ei gyflwyno'n hamddenol, gyda llawer o hiwmor. Diolchwyd yn wresog iddynt gan Verian Williams.

**Diolch**
Dymuna Lynette James, Bryngwenllian, Hendygwyn ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau a'r cyfarchion a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

## Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi Hywel Dda



Diolch yn fawr i Jenny Davies-Scourfield am roi ei hamser i feirniadu'r hetiau a chardiau Pasg mewn disgo yn y Clwb Rygbi yn Hendygwyn yn ddiweddar. Tasg anodd iawn iddi gan fod pob het a cherdyn o safon uchel iawn! Llongyfarchiadau i'r enillwyr a da iawn wir i bawb a wnaeth gymryd rhan, diolch yn fawr i deulouedd y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi am eu cefnogaeth parhaus.

### Cylch Meithrin - Cystadleuaeth Het Pasg




1af Tommy
2il Oliver
3ydd Alis

SPAR
Jerry Williams a'i Feibion
GROSER a SWYDDFA BOST
CLOTH HALL
LLANBOIDY
Ffôn: 01994 448364 / 448221

ORW LTD
TRADING AS:
DORIAN PHILLIPS
ADEILADWYR - BUILDING CONTRACTORS
Owain: 07879 495 653
Dorian: 07889 186 036
owain@dorianphillipsbuilders.co.uk
dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

**Cylch Ti a Fi - Cystadleuaeth Cerdyn Pasg**




1af Gwenllian
2il Magi
3ydd Edith



Pob lwc i'r criw bach ma a fydd yn dechrau eu haddysg llawn amser yn ysgol Llys Hywel ar ôl gwyliau'r Pasg, mwynhewch!

# LLANBOIDY

**Sefydliad y Merched**

Cyfarfu'r aelodau yn Neuadd y Farchnad ar Fawrth 9fed o dan lywyddiaeth Denise Harris. Yn anffodus roedd y siaradwr gwâdd wedi cael damwain y diwrnod cynt ac yn methu bod yn y cyfarfod. Trafodwyd busnes ac atgoffwyd pawb am Sioe y Sir ym mis Gorffennaf. Ar Fawrth 18fed aeth aelodau o Grŵp Rebecca i ymweld ag Amgueddfa Abergwili. Croesawodd Jan Griffiths pawb at y byrddau i fwynhau cinio blasus. Aeth rhai o'r aelodau i weld gerddi Parc yr Esgob ar y safle ac aeth pawb o amgylch y trysorau sydd yn cael eu harddangos yn yr amgueddfa, yn cynnwys llun ar fenthyg gan yr arlunydd Rembrandt. Diwrnod wrth fodd pawb.

**Chwaeroliaeth**

Daeth yr aelodau ynghyd ar Fawrth 15fed o dan lywyddiaeth Wenfys Rees, hi oedd hefyd yn gyfrifol am roi arddangosfa trefnu blodau ar gyfer y Pasg. Bu'n dangos sawl trefniant, gyda rhai o'r aelodau'n ddigon ffodus i'w hennill ar ddiwedd y prynhawn. Diolchodd Dorothy Morris iddi hi ac i Susan Davies a Dorothy oedd wedi paratoi te a bisgedi i bawb.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Gwynlais a Dorian Phillips a'u teuluoedd ar farwolaeth chwaer yng-nghyfraith sef Christine Phillips o Pwlltrap.

# LLANDDEWI



Cynhaliwyd gwasanaeth Gwener y Groglith yr ofalaeth yn Bethel, Llanddewi eleni. Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros wledd a oedd wedi ei baratoi gan Pamela Lewis. Diolch hefyd i Ruth a Catrin am helpu i ddosbarthu'r wledd.

# HENLLANFALLTEG

Penblwydd Hapus i Kevin Morris, Bryntaf a fu'n dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar y 28ain o Fawrth.

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer anafiadau sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith
Apwyntiadau ar gael yn Crymych a San Cler

# SAN CLER

Croeso Cynnes
Diolch i bawb fu'n gwirfoddoli yn Croeso Cynnes dros fisoedd y gaeaf. Bu'n llwyddiant mawr ac yn awr mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu parhau gyda'r cynllun yn y Gât bob dydd Iau o Ebrill 20fed.

## Cyngor Tref Sanclêr

Bob dydd Iau dros fisoedd y gaeaf, trefnodd Cyngor Tref Sanclêr gynllun o'r enw Croeso Cynnes yn Y Gât, Sanclêr dan nawdd Cyngor Sir Gâr. Roedd yn gyfle i bobl ddod at ei gilydd am baned dwym am ddim a chael sgwrs ymysg ffrindiau.

Mi ddaeth y nawdd i ben ddiwedd mis Mawrth, ond cymaint oedd mesur llwyddiant Croeso Cynnes, a'r angen amdano, penderfynodd y Cyngor Tref i barhau gyda'r cynllun o Ebrill 20fed ymlaen.

Fe fydd yr oriau agor yn newid i 10.30 tan 2 o'r gloch o hyn ymlaen. Felly, edrychwn ymlaen i'ch croesawu chi nôl atom i gael clonc.

Diolch i Gyngor Sir Gâr am y nawdd i'w redeg yn y lle cyntaf a diolch i Gyngor Tref Sanclêr am ei parodrwydd i barhau gyda'r cynllun gan gefnogi'r gymuned leol.

Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr am fod yn barod i helpu a sicrhau llwyddiant y cynllun.

Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Cyngorydd Annalyn Davies. 07783 471377




Newyddion San Cler
Does dim llawer o newyddion wedi cyrraedd o San Cler yn ddiweddar. Os oes gennych newyddion – babi newydd, dyweddiad, priodas, llwyddiant ayb a wnewch chi plis gysylltu â Beti-Wyn James 01994 230966 neu betiwynjames@aol.com.

# PWLL TRAP

Cydymdeimlwn â Peter ac Iris Jones, Haulfan, a'r teulu ar farwolaeth chwaer Peter yn ddiweddar.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth sydyn Christine Phillips, Gorsfach, tra allan yn Sbaen. Cofiwn am ei phriod, Iori y plant a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar.

Mae wedi bod yn ddiwedd cyfnod ar Janet Lewis, Pennant, wrth iddi ymddeol o'i gwaith. Mae Janet wedi bod yn gwarchod plant ers dros 40 mlynedd yn ei chartref yn Pennant. Tipyn o gamp! Mae nifer fawr o ieuenctid yr ardal wedi treulio eu blynyddoedd cynnar gyda hi ac wedi elwa o'r gofal cynnes, caredig ac ystyrlon a gawsant ganddi. Dymunwn pob bendith i Janet ar ei hymddeoliad gan ddiolch iddi am ei gofal o'r plant bach. Byddwn yn gweld eisiau cwrdd â Janet wrth iddi fynd a'i chywion bach am dro o gwmpas Pwll Trap.

## Bethlehem Newydd

Cafwyd Oedfa Gymun ar Sul y Blodau dan ofal y gweinidog.
Dathlwyd y Pasg mewn oedfa Gymun dan ofal yr aelodau. Braf oedd cael ieuenctid y capel, nifer adref dros y gwyliau, yn cymryd rhan. Diolch i Rhodri a Marian am drefnu'r oedfa arbennig hon.

## Tŷ Croeso



Cyfrannodd aelodau'r ofalaeth, ffrindiau Tŷ Croeso a'r gymuned ehangach ddillad ar gyfer Coda Ni. Eu ffocws eleni yw codi arian ar

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
**Dai James - Steven Owens**
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

SIOP SIAN CRYMYCH
**Crefftau Cymreig**
***Gemwaith Rhiannon***
***Crisial Brenhinol Cymru***
***Crefftau Lleol***
***Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau***
***Crymych, SA41 3QF***
***FFÔN: 01239 831230***

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

gyfer sefydlu ffynhonnau dŵr glan yn Burkina Faso yn ogystal â chefnogi elusennau lleol. Aethpwyd a llond fan o ddillad a gasglwyd! Diolch i bawb a gyfrannodd, i'r rhai fu ym Methlehem Newydd ar foreau Sadwrn i dderbyn y dillad ac yn arbennig i Pethau Olyv am gynnig i bobl adael bagiau dillad gyda hwy.



Daeth 52 o Wyau Pasg i law. Fe'u rhannwyd allan rhwng Banc Bwyd Hendygwyn a'r Lloches. Mae'r lloches yn gofalu am blant yn y gymuned hefyd, felly roedd digon o wyau i sicrhau nad oedd un plentyn heb ddim adeg y Pasg. Diolch i bawb am eu haelioni.

**Eric Hughes**

**Diolch.** Dymuna Phyllis, Meinir, Menna a'u teuluoedd ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad ac am y caredigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thadcu annwyl.

Hefyd, diolch am y cyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Eric tuag at Parkinson's Cymru.

# EFAILWEN

Llongyfarchiadau i Rhodri John ar bortreadu cymeriad Gwynfor Evans yn arbennig yn Y Sŵn. Braf yw gweld rhywun o'r gymuned hon yn serenu mewn ffilm bwysig am hanes y frwydr i sefydlu ein sianel deledu Gymraeg, S4C.

Cydymdeimlwn â theulu Bro Beca sydd wedi colli tadcu a thad yng nghyfraith annwyl yn ddiweddar, sef Tegwyn Evans o Saron.

**Capel Nebo**

Cawsom Gymanfa Bwnc lwyddiannus ddiwedd mis Mawrth. Darllenwyd rhan o'r bennod gyntaf yn ôl Efengyl Ioan. Daeth Emyr Phillips atom i'n holi ar ôl i'r ieuenctid gymeryd rhan drwy adrodd hanes dyddiau'r Iesu'n arwain at y Pasg, yn arbennig o dda. Hyfryd oedd clywed yr ieuenctid yn ymateb yn synhwyrol i'r holi gan Mr Phillips.



Plant ac ieuenctid Nebo yng nghwmni Emyr Phillips


## Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfu aelodau Hoelion Wyth Beca ar nos Fercher, Mawrth 29ain yng Nghaffi Beca, Efailwen yn ôl eu harfer. Croesawyd pawb ynghyd gan y Cadeirydd Eifion Evans, cyn iddo groesawu'r gŵr gwadd sef Meic Thomas o Hwlffordd. Cafodd Meic ei eni a'i fagu yn Hendy Gwyn ar Daf ac roedd yn briodol iawn taw Abaty Hendy Gwyn oedd testun ei gyflwyniad.

Bu Meic yn perfformio ymgom mewn llais William ap Thomas, Abad olaf Abaty Hen Dy Gwyn ar Daf. Ysbrydolwyd Meic gan ddarlith arlein am y Sistersiaid, gan yr Athro Janet Burton o Brifysgol y Drindod Dewi Sant, yn ystod y cyfnod clo. Ar ôl gwneud peth ymchwil ei hun, penderfynodd Meic ddweud yr hanes ar ffurf 'ymgom' mewn ymdrech i ddod a blas dynol i'r stori. Roedd Meic wedi gwisgo lan fel abad er mwyn dod â'r hanes yn fyw o flaen ein llygaid. Roedd diddymu Abaty Hen Dy Gwyn yn ogystal a Abatai eraill yn ddigwyddiad hanesyddol tyngedfenol yn hanes Cymru.

Yn ystod yr ymgom, clywsom am natur yr Urdd Sisteriaidd a'i ddylanwad lleol, cenedlaethol, a rhyngwladol. Rhoddwyd cryn sylw hefyd i hynt yr Abaty yng nghyd destun y gwrthdaro rhwng tywysogion Cymreig a'r Eingl Normaniaid. Cafwyd cyfle i holi cwestiynau i Meic ar ddiwedd ei gyflwyniad a diolchodd Eifion yn gynnes iawn iddo am noson arbennig iawn.







Bu pawb yn mwynhau basned o gawl bendigedig Robert cyn mynd am adref. Byddwn yn cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Ebrill 26ain pan fyddwn yn mynd ar daith ddirgel. I ble fyddwn yn mynd? Cewch wybod wrth ddarllen am hanes y daith yn rhifyn mis Mai o'r Cardi Bach!



Eifion Evans, Eurfyl Lewis a Ken Thomas yng nghwmni'r siaradwr gwadd sef Meic Thomas.

# LLANGYNIN

## Gareth Elis yn ennill yng Ngwobrau Drama Sain y BBC 2023

Testun balchder oedd gweld un o blant Llangynin yn dod i'r brig yng Ngwobrau Drama Sain y BBC 2023. Gareth Elis, mab Nigel a Sian Davies, Llain Deg, oedd enillydd Gwobr Marc Beeby yng Ngwobrau Drama Sain y BBC eleni oherwydd safon uchel ei berfformiad yn y ddrama podlediad 'Tremolo'. Cyflwynir y wobr hon am y perfformiad cyntaf gorau mewn unrhyw ddrama radio neu ddrama sain.

Mae 'Tremolo', sydd wedi'i recordio gefn-wrth-gefn yn Gymraeg a Saesneg, yn ddrama bwerus sy'n trafod Alzheimer's Cychwyn-Cynnar Teuluol. Gareth Elis sy'n chwarae Harri, bachgen ifanc 18 oed sy'n darganfod bod ei fam yn dioddef o'r clefyd ac yn archwilio'r cwestiwn a ddylai ef a'i chwaer gymryd prawf geneteg i ddarganfod a ydyn nhw wedi etifeddu'r cyflwr ai peidio. Mae'n adrodd y stori fel monolog.

Cynhaliwyd y seremoni ddydd Sul, 19eg Mawrth 2023 yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC yn Llundain pan gafodd Gareth ei gyhoeddi fel yr enillydd. Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei lwyddiant.

Os hoffech chi glywed perfformiad Gareth Elis, mae Tremolo ar gael i wrando arno yn Gymraeg a'i lawrlwytho drwy blatfformau yn cynnwys Spotify, Apple Podcasts, AMAM yn ogystal ag ar wefan Theatr Genedlaethol Cymru. *(Llun ar dudalen flaen)*

**Llongyfarchiadau**



Un arall o blant Llangynin sydd wedi ennill gwobr yn ddiweddar yw Ffion Haf Thomas, Primrose Hill. Ffion oedd enillydd Tlws Capel y Priordy eleni yn Noson Wobrwyo flynyddol Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin am yr ymdrech orau yn Addysg Grefyddol.

Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Bingo'r Bryn**

Roedd Neuadd y Bryn yn llawn ar gyfer Bingo'r Bryn nos Iau, Ebrill 6ed, a phawb wedi cael noson wrth eu bodd. Trefnwyd y noson gan y Pwyllgor Rheoli, a gwnaethpwyd elw o £245 tuag at y gost o gynnal a chadw'r Neuadd. Diolch i Glyn Rees a Robert Morgan am alw a gwirio'r rhifau ac i'r cyfeillion a fu'n helpu ar y noson. Diolch hefyd i bawb a ddaeth i gefnogi ac a gyfrannodd wobrau ar gyfer y raffl.

**Cydymdeimlad**

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth Myrddin Parry, Erw Lon, a fu farw ddydd Mercher, Mawrth 22ain, yn 82 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Menna a'r teulu oll ar adeg mor drist.
.... hefyd â Neil a Mary Edwards, Pleasant View, ar farwolaeth brawd -yng- nghyfraith, sef Ward Nicholas o Arberth.

**Penblwydd hapus**

Llongyfarchiadau i Rhodri Glyn Thomas, Llanddwyn, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 70 oed ar Ebrill 11eg. Penblwydd hapus iawn a phob dymuniad da iddo.

**Gwellhad buan**

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Sarah Roberts, Pen-y-Bryn, sydd wedi cwympo a thorri ei phigwrn yn ddiweddar.

BFF
Bwydydd Fferm Bwlchygroes
Masnachwyr Amaethyddol Annibynnol
• Bwyd anifeiliaid
• Ffensio
• Nwyddau ar gyfer y fferm
Am bris cystadleuol ffoniwch:
01239 698226
neu Eleri 07827 854679

GSJ
G.S.JENKINS
EFAILWEN, CLUNDERWEN
07554 664 316
Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar


Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

# LLANDYSILIO

I roi cyfle i'r gymuned gefnogi Cymdeithas Neuadd a Maes Chwarae Llandysilio, trefnwyd Cyngerdd Mawreddog yng Nghapel Pisga nos Wener, 17eg o Fawrth. Cafwyd noson hwylus dros ben yn cael ein diddani'n llwyr gan artistiaid talentog iawn.

Cyfrannodd Côr Meibion Hendwygwyn a'r Cylch o dan arweiniad Hefina Jones a chefnogaeth eu cyfeilydd Owain Lewis. Sioned Llewelyn ac Owain Jenkins oedd yr unawdwyr a chafwyd datganiad ar y delyn gan Loti Makepeace. Bu Siôn Jenkins yn llefaru ac yn cyflwyno'r noson.

**Llongyfarchiadau**



Llongyfarchiadau mawr i Glwb Ffermwyr Ifanc Clunderwen am ennill y cystadlu yn y 'Field Day'

Yn y lluniau, rhai o lwyddiannau'r dydd o Llandysilio, sef 1af i Dan, Sam a Will yn ffensio.



*Yn y llun gydag aelodau'r côr o'r chwith mae Siôn Jenkins, Sioned Llewelyn, Owain Lewis (wrth yr organ) Loti Makepeace, Hefina Jones ac Owain Jenkins*

**Pwyllgor Neuadd Llandysilio**

Cynhelir Pwyllgor Neuadd ar yr ail nos Lun o bob mis yn Neuadd Llandysilio am 7.30yh. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr 8fed o Fai. Croeso i chi ymuno â ni. Byddai'n braf gweld chi yno.



Gracie May Wills - 3ydd yng ngwaith metal.

**Penblwydd Hapus yn 60 oed**



Rhai o ferched Llandysilio a'r fro yn dathlu penblwydd Ceris Llewellyn yn ddiweddar.

Neuadd Llandysilio

**Bore Coffi a Raffl**

Dydd Llun 8fed Mai am 10-00 - 12.00

Cystadleuaeth creu coron

Mynediad £1.00

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Ym mis Ebrill, trefnwyd cystadleuaeth Coginio Pasg gan Sue Clarkson a Barbara Pegg. Roedd 4 grŵp yn coginio 4 gwahanol eitem i fynd adref. Hefyd dangosodd Barbara Pegg i ni sut i wau cwningen fach.

Llongyfarchiadau i Barbara hefyd, am ddod yn 1af gyda'i Ceuled Lemwn ac yn 2il gyda'i Marmaled yn Sioe Marmaled Rhos. Da iawn Barbara.

**CYLCH MEITHRIN LLANDYSILIO**

Neuadd Llandyslio, Llandysilio, Clunderwen, Sir Benfro SA66 7SY

Ar Agor: pob bore

9.00 yb - 12.00

Arweinydd: Liz Lewis

Rhif Ffôn: 07760135392

neu: cmllandysilio@outlook.com

*Rhif Elusen Cofrestredig - 1089716*

**Cylch Ti a Fi**

**Llandysilio**

I blant 0-4 oed a'i

Rhieni/gwarchodwyr

Pob prynhawn Mercher

(heblaw ail Mercher

o bob mis)

12.00 - 1.30yp

£2.50

Neuadd Llandysilio

# PENYBONT

**CFfI Penybont**

Llongyfarchiadau mawr i Fiona Phillips a Hannah Richards ar gael eu hethol yn rhan o dîm Llysgenhadon CFfI Sir Gâr 2023-2024.

Bydd y ddwy yn ddirprwyon i'r Llysgenhadon Betsan Jones a Dafydd Evans o CFfI Llanllwni.



Hannah Richards



Fiona Phillips




Elen Jones, y siaradwr gorau

**Llongyfarchiadau** hefyd i Elen Jones a Celyn Richards yng Ngŵyl Siarad Cyhoeddus CFfI Cymru yn cynrychioli Penybont a Sir Gâr. Cipiodd Elen y siaradwr gorau yn yr Adran Hŷn Cymraeg. Ac roedd Celyn yn aelod o'r timau a ddaeth yn gyntaf mewn adrannau Cymraeg a Saesneg.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gilbert Roberts, Carwyn Thomas a Gwion Jones-Howells ar ddod yn fuddugol yng nghategori'r ffensio iau yn Niwrnod Gwaith Maes y Sir.

## Lynn Jones

Dymuna Ann, Kevin, Nerys a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thadcu annwyl.

Diolch i'r Parchedig Rhodri Glyn Thomas am ei wasanaeth ar ddydd yr angladd ac i Annalyn Davies a Beti-Wyn James am gymeryd rhan.

Diolch i Glanmor Evans, a'i fab, Iwan, am drefnu'r cyfan mor urddasol.

Diolch, hefyd, am y cyfraniadau hael i Ymchwil Cancr Cymru. Gwerthfawrogwn y cyfan.

# CWMBACH

Dymuniadau gorau i Peter Robinson, Waunllan ar ôl iddo syrthio a torri ei goes. Mae ar hyn o bryd yn ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd.

....hefyd yr un dymuniadau i Elfyn Evans, Ffoshelig ar ôl iddo dreulio peth amser yn ysbyty Glangwili.

# LOGIN

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchg Tom Evans a Mr Tudur Dylan Jones am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mai:
7fed - Judith Morris - Cymun am 10.30 o'r gloch
21ain - Peter Thomas - Cwrdd am 2 o'r gloch

Mehefin:
4ydd - Hedd Ladd Lewis - Cymun am 10.30 o'r gloch
18fed - Natalie Morgan - Cwrdd am 2 o'r gloch

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn gyda Tudur Lewis, Bro Beca a'r plant ar farwolaeth tad yng nghyfraith a tadcu annwyl, sef Tegwyn Evans, Saron yn ddiweddar.
Cydymdeimlwn hefyd gyda Sian Davies ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith sef Owen Davies, Boncath.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau mawr i Alison Thomas a'i gŵr Daniel ar enedigaeth merch fach o'r enw Loti Alys, chwaer fach i Nansi. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

**Atgyweirio**

Mae rhan o nenfwd a to y capel wedi ei atgyweirio erbyn hyn, diolch i Ifan Lewis a Jamie Phillips am gyflawni'r gwaith.

# CWM MILES

Cynhelir cymun ar Mai 28ain am 2 o'r gloch gyda Arwel Evans yn gwasanaethu.

Rydym yn deall bod y Parchedig Euros Jones Evans, wedi cael llawdriniaweth yn ddiweddar ac am ddymuno gwellad buan iddo.

## Canolfan Ffynnonwen

Cynhaliwyd noson arall o Gwrdd am Glonc ar y 24ain Chwefror. Noson lwyddiannus eto gyda tua dri deg yn bresennol. Mae'n debyg y byddwn yn cynnal y digwyddiad hwn yn gyson.

Edrychwn ymlaen at y Noson Cawl a Chân ar Nos Wener 21ain Ebrill am 7 o'r gloch. Noson Gymreig bydd hon. Croeso cynnes i bawb ond cofiwch ddod â basn a llwy £10 y pen a bwyd am ddim i'r plant.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Ganolfan ar nos Fawrth 9fed Mai. 7.30. Dewch yn llu. Un mater ar yr agenda bydd gweithgaredd i ddathlu pum deg penblwydd y Ganolfan.

### Cyflwyno siec er côf am Rhoswen



Roy yn cyflwyno siec i'r Ganolfan. Swm a gasglwyd er côf am Rhoswen.

Yn y llun mae Cathy O'Keefè, is-drysorydd; Julie Sweet, is-ysgrifennydd; Roy, cadeirydd a Meinir Eynon, ysgrifennydd.

### Cylch Meithrin Ffynnonwen





Pob lwc a dymuniadau gorau i'r plant yma sydd wedi gadael y Cylch Meithrin ac yn symud ymlaen i Ysgolion Beca, Bro Brynach a Bro Preseli.



Diolch i "Actif Stori" am ddod draw i'n clwb Pasg i wneud gweithgareddau gyda'r plant. Mae nhw'n amlwg yn mwynhau.

# BANCYFELIN

**Henoed Bancyfelin**

Daeth nifer fawr o aelodau Henoed Bancyfelin ynghyd yn y Fox and Hounds Bancyfelin ym mis Mawrth er mwyn dathlu Gŵyl ein nawddsant.

Croesawyd pawb gan y Cadeirydd Annalyn Davies ac aeth ymlaen i adrodd tipyn o hanes y genhinen a'i harwyddocâd i'r Cymry. Adroddodd y pennill cyfarwydd ' Os wyt Gymro hoff o'th wlad' lle mae yna gyfeiriad at wisgo cenhinen yn dy gap ac yn dy galon.

Mwynhaodd pawb y cawl blasus dros ben a'r bara brith a phicie ar y maen. Diolchodd y Cadeirydd i Mai Thomas yr ysgrifenyddes am drefnu popeth ac i'r Fox am baratoi gwledd i wneud dathliad Gŵyl Dewi yn un arbennig

**Capeli Cana a Bancyfelin**



Bu aelodau Capeli Cana a Bancyfelin ynghyd â Chapel y Priordy yn casglu hen sbectolau yn ystod mis Mawrth er mwyn eu hail gylchu ar gyfer elusen. Cyflwynwyd bron i 150 par o hen sbectolau i staff optegydd Celtic Opticians i'w hailgylchu. Diolch i Ffion, Swyddog Eco'r Priordy am drefnu casgliad ac am ddidoli'r cwbwl! Ymdrech arddercog bawb. *parhad ar dudalen 29*

**Gibeon**

Cynhaliwyd oedfa ar fore Sul, Mawrth 19eg. Defnyddiwyd oedfa Dydd Gweddi'r Byd eleni a baratowyd gan ferched Taiwan. Cymerwyd rhan gan aelodau Gibeon a Bethlehem Newydd a da oedd cael cynulleidfa dda

yn y gwasanaeth bendithiol hwn. Diolch i Annalyn am drefnu'r oedfa ac am addurno'r capel ac i Hilary am gyfeilio.

Mae'r Ysgol Sul wedi bod yn cwrdd yn gyson yn ystod y Gwanwyn a mwynhawyd clywed Stori'r Pasg ar Sul y Pasg ac yna helfa wyau Pasg.



Dyma blant yr Ysgol Sul gyda'u wyau Pasg ar fore Sul y Pasg.

Cynhelir oedfa Undebol gyda Ysgolion Sul Gibeon, Cana, Bancyfelin a Ffynnonbedr yn cymryd rhan yng Nghana ar brynhawn Sul, Mai 14eg am 1.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau i Anwen (Gwarwenallt) a Matthew ar eu dyweddiad.

# RHYDWILYM

Y Parch. Catrin Isaac Thomas oedd yn gwasanaethu mewn oedfa Gymun ar brynhawn Sul y Pasg. Estynnwyd croeso iddi gan Beryl John a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth unwaith yn rhagor.

Cydymdeimlwyd gyda theulu y brawd Elwyn Bryan a fu farw yn ddiweddar.

Bydd y gwasanaeth nesaf ar Ebrill 23ain am 10.30 yng nghwmni Arwel Evans.

Mai
7fed 2.00 Cymun - Parch. Judith Morris
21ain 10.30 Parch. Peter M Thomas

# TRELECH

**Cydymdeimlwn** ac Elan a Neville Williams, Sunny Hill, ar golli brawd Neville sef Mr Harold Williams o Beniel, Caerfyrddin yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Meirion, Penlan ar ddathlu penblwydd arbennig ar ddiwedd y mis hwn.

**Capel y Graig**
Sul y Blodau, 2il o Ebrill
Cynhaliwyd oedfa gymun yng ngofal yr aelodau ar fore Sul y Blodau. Yn cymryd rhan oedd: galwad i addoli: Anwen Phillips; darlleniad Caroline Harries; anerchiad – Eifion Jones; gweddi – Alyson Harries; emynau: Menna Thomas Jones, Dafydd Phillips, Elin Phillips a Ffion Thomas; gweinyddu'r Cymun – Jean Lewis. Cydymdeimlwyd â Neville ac Elan Williams ar golli brawd yn ddiweddar sef Mr Harold Williams, Peniel. Buddug James Rees oedd yn cyfeilio. Ar ôl y gwasanaeth mwynhawyd paned a chacennau yn y festri.

**Sul y Pasg, 9fed o Ebrill**
Ar fore Sul y Pasg cynhaliwyd oedfa undebol yng Nghapel Ffynnonbedr gydag aelodau o gapeli'r ofalaeth yn cymryd rhan. Yn cynrychioli Capel y Graig oedd Alun Davies, Jean a Gwawr Lewis.
Ar nos Sul y Pasg, darlledwyd Gymanfa'r Pasg o Gapel y Graig ar raglen S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol. Roedd hi'n braf gweld cynulleidfa deilwng iawn o bob oedran wedi dod at ei gilydd. Cafwyd canu gwych o dan arweiniad medrus Sioned Page Jones gyda D Huw Rees yn cyfeilio. Darllenwyd rhannau o'r ysgrythur gan Alun Davies, Steffan Harries, Gwawr Lewis a Buddug James Rees.

Dymuna Capel y Graig ddiolch i bawb am ddod i'r Gymanfa, i'r gyflwynwraig Nia Roberts, Siân Thomas a holl staff Rondo. Diolch i bawb.

Dyma drefn cyfarfodydd Ebrill/Mai: Ebrill 17eg, cyfarfod Cymorth Cristnogol ym Mhen y bont am 7.00 o'r gloch. Ebrill 26ain, cynhelir cyfarfod yr Ofalaeth gyda'r Parchg Dyfrig Rees yng Nghanolfan Gymdeithasol Alma am 7.00 yh; Mai 7fed am 10.30 ym Mhen y bont – oedfa gyda Miss Catherine Davies; Mai 14eg am 2.00 yp Oedfa Gymun yng ngofal y Parchg Eirian Wyn Lewis; Mai 21ain am 2.00 yp Gymanfa Bwnc Pen y bont a Chapel y Graig ym Mhen y bont.

**Hwb Cynnes**



Prynhawn yng nghwmni Mr Eifion Jones. Roedd rhai o'r ffyddloniaid yn absennol o'r llun.

Cafwyd siaradwyr diddorol iawn yn ystod mis Mawrth. Ar y 3ydd, bu Una Owen Williams yn son am ei gyrfa fel bydwraig; ar y 10fed cafwyd gwybodaeth am wasanaethau gan Jeremy Hewitt a Jo o Age Cymru Dyfed; 17eg cwis gyda Jean Lewis; 24ain Alyson Harries fu'n rhannu ei phrofiad fel Ynad Heddwch ac ar y 31ain Eifion Jones fu'n tywys ni ar daith ei yrfa a'i fywyd. Dymuna Jean Lewis ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi a mynychu'r Hwb yn ystod y misoedd diwethaf. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r canlynol: Eirlys Phillips am ei

chymorth parod i gyd-redeg y prosiect; Miss Wendy a disgyblion Ysgol Hafodwenog am ymuno yn wythnosol; i'r holl siaradwyr; Menna Thomas Jones am y cacennau blasus wythnosol; Angela Marie (Cegin Mam Mam) am ddarparu lluniaeth blasus ar y 24ain a 31ain. Diolch yn fawr i swyddogion a gofalwraig y Ganolfan am bob cydweithrediad.

Diolch yn fawr iawn i Gyngor Sir Gar a Llywodraeth Cymru am y grant ar gyfer yr Hwb Cynnes. Diolch i bawb.

# LLANGLYDWEN

**Llwyddiant Ralio a Rasio Ceir**

Llongyfachiadau mawr iawn i Ryan Smith, 1 Feidr Fair ar ei lwyddiant diweddar yn y byd ralio a rasio ceir.
Mae Ryan yn ystod y mis diwethaf wedi cael cryn lwyddiant yn y campau yma, ac yntau ond yn 14 mlwydd oed.
Yn Rali Bro Preseli, bu Ryan yn cystadlu gyda Graham Davies ac mi ddaethant yn 21ain allan o 80 ac yn 4ydd yn eu dosbarth. Cyfllwynwyd plac i Ryan hefyd am ddod yn gyd yrrwr uchaf ei farciau o dan 21 oed. Dyma oedd y tro cyntaf i Ryan gymryd rhan mewn rali nos.




Ryan gyda Graham yn Rali'r Bro Preseli

Yna, dros benwythnos y Pasg, yn rownd gyntaf ag ail Pencampwriaeth 'Rallycross' Prydain yn Lydden Hill, llwyddodd i gael yr ail a'r pedwerydd wobr.



Llongyfarchiadau mawr iawn i ti Ryan, camp arbennig iawn a phob dymuniad da yn awr yn y rownd nesaf ym mis Mehefin yn Iwerddon. Mae'n siwr y byddwn yn clywed llawer mwy am dy lwyddiant yn y dyfodol.

# NEWYDDION BLAENCONIN

## CYMDEITHAS, CACEN a CHLONC

Daeth ein cyfres o gyfarfodydd 'Cymdeithas, Cacen a Chlonc' i ben ar y Sul olaf o Fawrth yng nghwmni'r Dr Hedydd Davies, Aberaeron.
Ym myd addysg ac athletau, mae enw Hedydd yn mynd o'i flaen. Daeth atom i adrodd hanes ei fywyd a'i gyfnod fel myfyriwr.



Eira ac Hedydd yn trafod Fred Bell

ALLSORTZ
Hendygwyn ar Daf
Ar agor 6 diwrnod
Cardiau•Baneri•Balŵns
Papur Lapio
Batris Duracell a Panasonic
Deunydd Swyddfa
Cynnyrch Anifeiliaid Anwes
A LLAWER LLAWER MWY

DEREK & PAUL MORGAN
Paentiwr
Addurnwr
Gosodwr Teils
BRYN HEULOG
VELFREY ROAD
HEN DŶ GWYN ar DAF
Ffôn: 01994 240113

Tŷ Bach Twt
Siop Anrhegion
Gift Shop
01239 831 144/07900 692 678
Ty Bach Twt

Yn ystod y prynhawn, rhannodd Hedydd nifer o luniau gyda'r gynulleidfa oedd yn adrodd hanes ei fywyd fel athletwr.

Wedi dychwelyd i weithio fel Swyddog Addysg yng Nghyngor Dyfed, llwyddodd i godi arian sylweddol i osod trac athletau yng Nghaerfyrddin. Mawr yw dyled athletwyr Gorllewin Cymru i ymdrechion Dr Hedydd Davies.

Mae Hedydd wedi cyhoeddi llyfr yn adrodd hanes ei fywyd ac mae'r cyhoeddiad hwnnw wedi gwerthu allan. Bellach, mae ganddo lyfr sydd yn cynnwys atgofion nifer o aelodau y Carmarthen Harriers gan gynnwys Syr Gareth Edwards, Brynmor Williams, Roy Bergiers a Lyn Davies. Hyfryd oedd clywed am ei berthynas â dau aelod o'r Eglwys ... bu'n gweithio gyda Dyfrig Davies yn Adran Addysg Cyngor Dyfed ac ym myd athletau, cyfeiriodd at waith clodwiw Roy Adams.

Diolch i Hedydd am ddod atom ac i Lilwen McAllister a'r Parch Geoffrey Eynon am ddod atom yn ystod y gyfres.

## Y Gymanfa Bwnc 2023

Rhoddwyd enw newydd i'r Sul cyntaf wedi'r Pasg sef, 'Sul y Cyhoeddi' gan fod yr aelodau a chyfeillion yr Eglwys yn derbyn cyhoeddiad arbennig - testun y Gymanfa Bwnc!

Ac eleni, derbyniodd yr Eglwys y newyddion yn llawen mai'r bumed bennod o efengyl Mathew fydd testun a thema'r paratoadau yn ystod y Suliau nesaf. Mae'r Bregeth ar y Mynydd yn gyfarwydd i bawb ac edrychwn ymlaen at y trafodaethau. Dewch atom fore Sul am 10.30 i fod yn rhan o'r hwyl. Cynhelir y Gymanfa ar yr 28ain o Fai (Y Sulgwyn) am 10.30 y bore.

### Oedfaon Wythnos Fawr y Pasg

Cynhaliwyd pedair Oedfa yng nghyfres cyfarfodydd Wythnos Fawr y Pasg a braf oedd cael treulio amser yn myfyrio ynghylch digwyddiadau'r diwrnodau.

Cynhaliwyd oedfa bregeth ym Mlaenconin ar Sul y Blodau a thrafodwyd holl hanes y diwrnod.

Daeth y ffyddloniaid a nifer o ymwelwyr i'r oedfa Gymundeb yn y Ffynnon nos Iau Cablyd a threuliwyd amser yn adrodd hanes y Swper Olaf cyn torri bara a rhannu gwin.

Bore dydd Gwener y Groglith cynhaliwyd oedfa Gymundeb ym Mlaenconin gan 'ffocysu' ar brif ddigwyddiadau'r dydd gan wrando ar emynau a dilyn y geiriau yn dawel. Oedfa fendithiol iawn.

Daeth y ffyddloniaid ynghyd bore'r Pasg i ddathlu'r Atgyfodiad a chafwyd bendith trwy edrych o'r newydd ar yr hyn a ddigwyddodd. Uchafbwynt yr oedfa oedd y Cymundeb. Rhannwyd wyau Pasg ar ddiwedd y gwasanaeth.

### Bore Coffi Ratifa

Daeth y ffyddloniaid ynghyd ar Sul y Pasg i gofio Ratifa. Diolch i'r chwiorydd am baratoi'r lluniaeth.

## Taith Gerdded Llyfrau Llafar Cymru

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Ann Lewis wedi bod yn trefnu taith gerdded i godi arian tuag at waith Llyfrau Llafar Cymru. Mae'r daith wedi denu nifer fawr o gefnogwyr ac mae Ann newydd gyhoeddi dyddiad taith gerdded 2023 sef, dydd **Gwener, 19eg Mai**.

Bydd y daith yn dechrau yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Cilgerran am 10. 30 y bore gyda'r bwriad o fwynhau lluniaeth ar y dechrau ... cerdded i Aberteifi (milltir a hanner) ... cinio yn y Castell ac yna, dychwelyd i'r Ganolfan Bywyd Gwyllt. Digon o fwyd a digon o awyr iach !

## TREFN OEDFAON

**Dydd Sul, 23 Ebrill**
YSGOL SUL / Y GYMANFA BWNC - 10.30

**Dydd Sul, 30 Ebrill**
YSGOL SUL / Y GYMANFA BWNC - 1030

**Dydd Sul, 7 Mai**
YSGOL SUL / Y GYMANFA BWNC - 1030

**Dydd Sul, 14 Mai**
YSGOL SUL / Y GYMANFA BWNC - 1030

**Dydd Sul, 28 Mai**
Y GYMANFA BWNC - 1030

## NEWYDDION o'r FFYNNON

### Nos Iau Cablyd

Braint oedd cael dod ynghyd nos Iau Cablyd i gofio am sefydlu'r Swper Olaf. Hyfrydwch pur oedd cael croesawu ymwelwyr i'n plith a chafwyd bendith.

PREN DA
Gwaith coed o bob math
**Dafydd Makepeace**
Fferm y Cross
Llandysilio
Clunderwen
Ffôn 07967 220289

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
**Brooklyn Garage**
**Heol y Castell**
**Aberteifi. SA43 3AE**
**☎: 01239 612814 / 07765 034705**

# BANCYFELIN - *parhad o dudalen 25*

**Capeli Bancyfelin a Cana**



Roedd nifer o aelodau Cana a Bancyfelin yn rhan o'r 80 a mwy o bobol o ymlwybrodd i gopa Bryn Myrddin ar eu pererindod blynyddol ar brynhawn Gwener y Groglith. Wedi cario'r groes i ben y bryn, cynhaliwyd oedfa awyr agored dan arweiniad y Parchg Beti Wyn James gyda chymorth y Parchg Emyr Gwyn Evans. Mwynhawyd paned yng Nghanolfan Allt Myrddin ar ddiwedd y prynhawn.

**Gorymdaith y Pasg**



Daeth cwmni da ynghyd ar bnawn Sul y Pasg ar gyfer yr orymdaith Basg flynyddol drwy bentref Bancyfelin. Wedi oedi i ganu emynau ar y ffordd, ymlwybrodd pawb i mewn i'r capel ar gyfer oedfa fer dan arweiniad y Parchg Beti Wyn James, cyn mwynhau paned a byns y grog. Diolch i bawb a ymunodd yn y dathlu.

## PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd hapus iawn i Josef Rhys Perry, Sanclêr, a oedd yn dathlu ei ben- blwydd yn 5 oed ar Fawrth 19eg. Cariad mawr oddi wrth Mam, Dad, Jayden, Mamgu a Dadcu Llangynin a'r teulu i gyd.

*Emrys ac Ann Murrow*

**Motel Nantyffin
Llandissilio**

Bwyty • Neuadd Wledda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau

Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas
OPTEGYDD



Croeso i
gleifion GIG!

**Profion golwg GIG ar gael**
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn 01239 711888
Crymych 01239 831555
Arberth 01834 861373
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

**Robert W. R. Morgan**

ECA CYMERADWYEDIG GAN NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygwyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robrmd28@gmail.com

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BECA

**Eisteddfod Gylch a Sir**

Fel ysgol, yn ddiweddar rydym wedi bod yn brysur yn cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl a gymerodd ran yn yr Eisteddfod Cylch yn Neuadd Maenclochog. Da iawn i Medi ar dderbyn yr ail wobr yn y canu unigol i flwyddyn 3 a 4. Da iawn i Tomos ar ddod yn drydydd yn y llefaru unigol i flwyddyn 2 ac iau. Llongyfarchiadau i'r grŵp llefaru blwyddyn 6 ac iau ar ddod yn drydydd a da iawn i'r Parti Unsain am ddod yn gyntaf yn yr Eisteddfod Gylch ac ail yn yr Eisteddfod Sir. Da iawn chi blant, am eich holl waith caled.

**Gala Nofio**





Ar fore dydd Iau, 23ain o Fawrth, bu criw o ddisgyblion yn cymryd rhan yng ngala nofio ym mhwll Canolfan Hamdden Crymych.

Da iawn i Carys, Gwen, Maisie, Efan, Euan ac Osian am gystadlu.

**Diwrnod Trwynau Coch**

Ar ddydd Gwener y 17eg o Fawrth trefnodd y Cyngor Ysgol i bawb wisgo coch a gwisgo gwallt gwyllt am y diwrnod. Buodd pob dosbarth yn cynnal gweithgareddau trwynau coch a chodwyd £55 i'r elusen.

**Llwyddiant y Bingo Pasg**

Diolch i Gymdeithas Rieni a Ffrindiau Ysgol Beca am drefnu noson fingo llwyddiannus ar nos Wener, 24ain o Fawrth. Cawsom noson hwylus yn chwarae bingo gyda ffrindiau hen a newydd yr ysgol. Braf oedd gweld cymaint o wynebau cyfarwydd.

**Diolch i Eirian Davies**



Diolch yn fawr i'r arlunydd Eirian Davies am roi modelau Merched Beca i'r disgyblion i'w paentio. Ein thema y tymor yma oedd 'Fy nghornel Fach i o Gymru', felly rydym wedi bod yn dysgu am ein hardal a'n hanes lleol. Rydym yn edrych ymlaen i arddangos y gwaith celf yn yr ysgol.

**Ffarwelio â Mrs Giles**

Hoffwn fel ysgol ddiolch yn fawr i Mrs Giles am fod yn bennaeth dros dro yn Ysgol Beca. Braf oedd cael Mrs Giles yn ein harwain a'n cefnogi yn ystod ei chyfnod yma. Diolch i chi am eich holl waith caled a dymunwn bob hwyl i chi wrth i chi ddychwelyd i Ysgol Griffith Jones.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Gala Nofio**

Ar ddiwedd mis Mawrth, aeth Gwenllian, Grace, Sean, Loti, John, Bella, Che a Toby i'r Gala Nofio i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yng Nghanolfan Hamdden Crymych. Gwnaeth Gwenllian yn wych i ennill ei ras hi, gyda'r tîm yn gwneud yn arbennig i ddod yn 4ydd allan o naw tîm o ysgolion Sir Benfro.

**Traws Gwlad**

Aeth criw o redwyr dewr i redeg mewn cystadleuaeth traws gwlad a drefnwyd gan 'Trots' San Clêr. Llongyfarchiadau mawr i Mabli King am ddod yn ail yn ei ras hi ac i'r tîm cyfan am ymdrech arbennig o dan amodau anodd.

**Eisteddfod yr Urdd**

Da iawn i bob un a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Daeth Toby yn ail am lefaru'n unigol yn y Cylch gyda'r parti llefaru yn dod yn gyntaf a'r Parti Unsain yn drydydd. Gwnaeth y parti llefaru yn wych i ddod yn ail

yn rownd y Rhanbarth. Byddant yn mynd ymlaen nawr i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanymddyfri ym mis Mai.



Plant fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch a Rhanbarth

**Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau**

Diolch yn fawr i bwyllgor newydd y Gymdeithas Rhieni a Ffrindiau am drefnu Bingo ac helfa Wyau Pasg i'r disgyblion yng Nghlwb Cymdeithasol Llanboidy. Roedd yn gyfle hyfryd i'r plant a'r rhieni i gymdeithasu ar ddiwedd y tymor.

**Ffarwelio**

Ar ddiwedd y tymor daeth yn amser i ni ffarwelio â Mrs Mai Giles wrth i'w chyfnod fel ein Pennaeth Dros Dro ddod i ben. Diolch iddi am ddau dymor hyfryd, hapus a hwylus a dymunwn bob dymuniad da iddi nôl yn Ysgol Griffith Jones.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Eisteddfod Cylch Cwm Taf**

Agorodd Ysgol Griffith Jones eu drysau i'r gymuned wrth i dymor yr eisteddfota ddechrau.
Cynhaliwyd rhagbrofion canu a llefaru'r cylch yn ogystal â'r Eisteddfod Gylch ei hun yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill gwobrau:
Unawd Blwyddyn 2 ac iau: Elijah Diong 1af
Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4 i ddysgwyr:
Jenson Davies 1af
Unawd Blwyddyn 5 a 6: Holly Mackay 1af,
Enlli Morgan-Davies 2il, Summer Spure 3ydd
Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: Oliver Thomas 1af
Cyflwyno Alaw Werin Unigol Blwyddyn 6 ac iau:
Holly Mackay 1af, Ava Williams 2il
Grŵp Llefaru Blwyddyn 6 ac iau: Parti Rhiannon 3ydd
Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau: Parti Gwenllian 1af
Da iawn i bawb a gymerodd rhan.

Aeth yr enillwyr ymlaen i gystadlu wedyn yn Eisteddfod Rhanbarth Gorllewin Myrddin. Llongyfarchiadau i'r canlynol:
Unawd Blwyddyn 2 ac iau: Elijah Diong 1af
Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4 i ddysgwyr:
Jenson Davies 2il
Unawd Blwyddyn 5 a 6: Holly Mackay 2il
Llefaru Unigol Blwyddyn 5 a 6: Oliver Thomas 2il
Cyflwyno Alaw Werin Unigol Blwyddyn 6 ac iau:
Holly Mackay 3ydd
Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau: Parti Gwenllian 1af
Parti Deulais Blwyddyn 6 ac iau: Parti Beca 2il
Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau:
Enlli Morgan-Davies 3ydd
Unawd Offer Taro Blwyddyn 6 ac iau:
Alffi Morgan-Davies 1af
Unawd Llinynnol Blwyddyn 6 ac iau:
Oliver Thomas 2il
Dawns Werin Blwyddyn 6 ac iau: Parti Hywel 2il

Pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanymddyfri ym mis Mai.



Enillwyr Rhanbarth



Parti Dawnsio Gwerin Bl. 6 ac Iau

**Prosiect Gwenyn**

Bu plant blwyddyn 5 dosbarth Culhwch yn ffodus iawn i gael ymweliad wrth Mark Douglas o gwmni Bee1 (www.bee1.co.uk) a chymryd rhan mewn gweithdy diddorol yn ymwneud â gwenyn a mêl. Bu'r plant yn gwrando ar gyflwyniad am fywyd gwenynen gan ddeall am aelodau'r haid a sut y mae pethau'n gweithio o fewn y wenynfa brysur.

**Pencampwriaeth Traws Gwlad Gorllewin Cymru**



Bu 142 o blant o ysgolion yr ardal yn rhedeg yn Sanclêr ar brynhawn gwlyb iawn. Llongyfarchiadau i Iwan Morris, Hunter Phillips a Lilly-May Thomas-Patterson ar ennill eu rasys. Llongyfarchiadau i dîm Traws Gwlad yr ysgol ar ennill Cynghrair Traws Gwlad Ysgolion Cynradd Gorllewin Cymru eleni.

**Ymweliad**

Ar Fawrth yr 16eg, bu Eluned Morgan AS ar ymweliad â'r ysgol i drafod prosiect Her Hinsawdd Cymru gyda chriw o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6.

**Lawnsiad 'Mwy o Stori'r Iaith'**

Ar fore Gwener, Mawrth yr 17eg cafodd ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 wahoddiad i lawnsiad 'Mwy o Stori'r Iaith' gan gwmni teledu Rondo yn yr Egin yng Nghaerfyrddin. Cawsant gyfle i fynychu gweithdy cerddorol gyda Steffan Rhys Williams, buont yn barddoni gyda Casi Wyn, Bardd Plant Cymru a gweithdy Radio gyda Marc Griffiths ar Cymru FM. Profiad anhygoel i bob un.

**Diwrnod Trwynau Coch**

Penderfynodd y Cyngor Ysgol taw 'gwallt gwirion' oedd y thema ar gyfer Diwrnod Trwynau Coch eleni. Trefnodd y Cyngor gystadleuaeth creu trwyn coch eich hun. Llongyfarchiadau i'r ddau enillydd o bob dosbarth. Codwyd £327 tuag at elusen 'Comic Relief' hyd yn hyn.

**Sioe Diogelwch Bwyd**

Cafodd disgyblion Blynyddoedd 1 – 6 amser da yn gwylio'r sioe fywiog Miri'r Môr-ladron a'r Ffa Ffiaidd gan Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru. Bu'r plant yn helpu'r criw i ddod o hyd i'r trysor tra'n dysgu am ddiogelwch bwyd ar hyd y daith.

**CRaFf**

**Bore Coffi Pasg**

Cynhaliwyd Bore Coffi'r Pasg ar Fawrth yr 17eg. Roedd cacennau blasus o bob lliw a llun yno a chyfle i gymdeithasu unwaith eto yn neuadd yr ysgol gyda disied o de neu goffi. Codwyd £441.

**Bingo Pasg**

Trefnwyd Bingo y Pasg ar gyfer y disgyblion yn neuadd yr ysgol ar nos Iau, Mawrth 23ain. Codwyd £876. Diolch yn fawr am bob cefnogaeth.

**Disgo'r Pasg**

Cafodd y disgyblion noson o hwyl a sbri yn y disgo ar ddiwedd y tymor. Diolch unwaith eto i Adloniant S&S am gynnig eu gwasanaethau am ddim. Codwyd £746.90 - Ymdrech arbennig unwaith eto. Diolch hefyd i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith caled y tymor hwn eto.

**Cystadleuaeth Hetiau Pasg**




Bu plant y Meithrin (a'u rhieni!) wrthi'n brysur yn creu hetiau Pasg ar gyfer cystadleuaeth yn yr ysgol. Fe wnaeth pob un plentyn ymdrech arbennig o dda, Da iawn i

CARTREF ODDI CARTREF



Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

H THOMAS a'i FAB

Peiriannydd Amaethyddol





Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
*Trydanwyr*
*Siop Radio a Theledu*
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

WYN HOWELLS
Dandre
Llanboidy



Paentiwr ac
Addurnwr
Ffôn: 01994 448478

# YSGOL BANCYFELIN

**Eisteddfod yr Urdd**

Bu staff a disgyblion yr ysgol yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd eleni a chafwyd cryn lwyddiant.

Eisteddfod Gylch Cwm Taf:-
Llefaru Blwyddyn 2 ac Iau – 1af Meilyr James
Llefaru Blwyddyn 5 a 6 – 3ydd Gwion James
Côr i ysgolion dan 150 o blant- 3ydd
Perfformiad Theatrig o Sgript- 2il- Mari Evans, Emily Fenemore, Gwion James a Jac Pask

**Eisteddfod Sir**

Llefaru Blwyddyn 2 ac Iau – 2il Meilyr James
Grwp stepio- 3ydd
Pob lwc i Meilyr a fydd yn cynrychioli'r Ysgol yn yr Eisteddfod ddiwedd Mai.

**Ymweliadau gan y Ficer a'r Parchedig Beti Wyn**





Roedd yn braf cael croesawu'r Ficer Ann Howells a'r Parchedig Beti Wyn James i'r ysgol yn ddiweddar i gynnal gwasanaethau.

**Prosiect 23**




Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y Ffederasiwn yn mwynhau cyd-weithio gyda Rhys Padarn o Orielodl i greu panel celf ar gyfer Chwilio'r Chwedl yn Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin. Thema'r gwaith oedd chwedl Twm Siôn Cati. Mae Gwion a Mari hefyd yn brysur yn ymarfer ac yn paratoi ar gyfer y Sioe. Pob hwyl i chi'ch dau gyda'r perfformiad.

**Gwledd y Castell**



Fel clo i'w gwaith thema 'Yma o hyd' a'u gwaith am y llyfr Alun yr Arth a'r Castell, roedd llond dosbarth o Frenhinoedd a Brenhinesau yn Nosbarth y Llan ar ddiwrnod olaf y tymor. Uchafbwynt y diwrnod oedd y wledd flasus.





Meilyr James a fydd yn cynrychioli'r Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd mis Mai.

J. B. OWEN
LLOGI PEIRIANNAU
Golygfa
Llandissilio
Ffôn: 01437 563693
07966 549623

Ken Davies a'i Fab
Cigyddion
Brynawelon
Crymych
Ffôn: 01239 831978

Wynne Phillips
CANOLFAN TRYCIAU
Gwasanaeth o safon
Heol yr Orsaf
Hendygwyn
Ffôn: 01994 240820

# HANES LLEOL

## Yr Hen Ffatri Bop, Llanboidy

Sefydlodd Mr J.L. Walters yr Hen Ffatri Bop, a oedd hefyd yn cael ei hadnabod fel 'Aeriated Waters', Llanboidy yn 1911. Roedd e hefyd yn fferyllydd. Does dim llawer o wybodaeth am y ffatri ei hun. Ond roedd dyn o'r enw Wil Pop yn arfer gweithio yno. Cafodd ei gwerthu i ddyn o'r enw Mr Davies a barhaodd gyda'r ffatri, ond a oedd hefyd yn gweithio ym maes defnyddiau. A fe newidiodd enw'r siop i Cloth Hall.

Prynodd Jerry a Dot Williams y siop a'r ffatri yn 1951 gyda'r bwriad o barhau â'r Ffatri Bop, ond heb iddyn nhw wybod ar y pryd, roedd yr holl beirianwaith yno yn ddiffygiol, ac roedd hynny yn destun siom iddyn nhw, gyda Jerry newydd adael y Llynges.
Ar y pryd, roedd pedair siop yn Llanboidy, y siop loshin yn Rhif 1 Sgwar Piccadilly; y siop National Provincial; Swyddfa'r Post a'r pympiau petrol o flaen y fflatiau; a'r siop fwyd a loshin yn Felinganol. Roedd garej hefyd yn gwerthu petrol drws nesa i dafarn y Maesgwynne Arms, a rhagor o bympiau petrol yn Rose Villa.

Parhaodd Jerry a Dot gyda'r gwaith defnydd a phrynu'r ddwy siop loshin. Treuliodd Jerry gyfnod o'i blentyndod yn Ysgol Breifat Bedales ger Petersfield, Hampshire. Yn byw ger Llandudoch, byddai'n teithio yn aml ar reilffordd Y Cardi Bach i Hendy-gwyn ac yn ôl.

Rhai o'i gyd fyfyrwyr yn Bedales oedd meibion Fry's, Mackintosh a Rowntree - cysylltiadau defnyddiol tu hwnt, gan fod siwgwr yn brin iawn ar y pryd oherwydd y dogni yn sgil yr Ail Ryfel Byd.
Roedd Jerry bellach mewn sefyllfa i werthu bwydydd melys, ond penderfynodd beidio parhau â'r fenter honno.

Er mwyn parhau i redeg busnes dewisodd Jerry a Dot arallgyfeirio, ac aeth y teulu cyfan i Lundain i gael gafael ar asiantaethau ym maes pob math o deganau a gemau ar gyfer anrhegion Nadolig.

Arweiniodd hyn at gael "Bazaars" Nadolig yn yr ystafell gefn. Oliver Edwards, a oedd yn byw yn Llwynnon oedd Siôn Corn, a bu'n gwneud hynny am sawl blwyddyn.

Cymrodd Dot Swyddfa'r Post o dan ei hadain. Ymunodd Jerry â Foster Wheeler, a oedd yn un o'r prif gontractwyr yng ngwaith adeiladu purfa Esso yn Aberdaugleddau. Pan ddaeth y swydd honno i ben, ymunodd Jerry â Woodall's Newspapers. Parhaodd yno tan ei ymddeoliad. Bu Dot yn rhedeg y siop a Swyddfa'r Post tan iddi gael ei tharo'n wael a bu'n rhaid iddi ildio'r awenau.
Erbyn hynny, roedd Rodney yn rhan allweddol o'r busnes ac fe gydiodd yn yr awenau yn 1991, wedi marwolaeth Dot.

Roedd yr ystafell gefn yn y Cloth Hall, pan ym mherchnogaeth D L Walters yn stiwdio lle roedd yn arfer darlunio. Dyma lle y darluniodd Mr Walters y llun o'r daliwr twrch daear a oedd yn arfer cael ei arddangos yn Neuadd Y Farchnad.
Cafodd y llun ei gyflwyno i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin yn Abergwili yn ddiweddarach er mwyn ei warchod, ac mae modd ei weld yno heddi.

Gan: Rodney Williams, mab Jerry a Dot Williams, Cloth Hall, Llanboidy.



Llun o'r hen lori bop









# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2023

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sul 7fed Mai | SBAEN - YSBLANDER CANTABRIA | £1,100 | 10 Diwrnod |
| Sul 7fed Mai | SCARBOROUGH | £560 | 6 Diwrnod |
| Gwener 19eg Mai | HYFRYDWCH DARTMOOR ac ARFORDIR HARDD DYFNAINT | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £375 | 3 Diwrnod |
| Gwener 26ain Mai | CRWYDRO'R ALBAN - YNYSOEDD LEWIS a SKYE HEBRIDEAN | £1,070 | 8 Diwrnod |
| Llun 5ed Mehefin | GERDDI SWYDD LINCOLN a'I HANES DIDDOROL | £395 | 4 Diwrnod |
| Mercher 7fed Mehefin | TAITH YSBLENNYDD O'R IWERDDON | £1,275 | 11 Diwrnod |
| Gwener 16eg Mehefin | SIOE FAWREDDOG "BBC GARDENERS WORLD" | £195 | 2 Ddiwrnod |
| Llun 19eg Mehefin | TREN, CWCH a CASTLE HOWARD YN EFROG, LLOEGR | £485 | 5 Diwrnod |
| Iau 22ain Mehefin | CYFLYMDER CEIR RASIO YN GOODWOOD | £365 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 24ain Mehefin | TRENNAU BACH Y RHINEYN YR ALMAEN | £1,150 | 8 Diwrnod |
| Mawrth 27ain Mehefin | LLANDUDNO YN YR HAF | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 2ail Gorff | ARFORDIR CYFAREDDOL KENT A CHASTELL LEEDS | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 7fed Gorff | SIOE FLODAU FAWREDDOG HAMPTON COURT | £360 | 3 Diwrnod |
| Llun 10fed Gorff | O AMGYLCH FFINIAU CYMRU | | |
| Iau 13eg Gorff | TAITH FACH FYR I'R COTSWOLDS | £290 | 3 Diwrnod |
| Sul 16eg Gorff | SUFFOLK | £550 | 5 Diwrnod |
| Gwener 28ain Gorff | CYCHOD A THRENNAU Y TYROL YN YR AWSTRIA | £995 | 8 Diwrnod |
| SUL 30ain Gorff | CAMBRIDGE | £525 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Awst | "PEAK DISTRICT" CANOLBARTH A GOGLEDD LLOEGR | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwener 11fed Awst | GWYL RHYNGWLADOL BALWNS BRYSTE | £255 | 3 Diwrnod |
| Llun 14eg Awst | DURHAM A BEAMISH | £515 | 5 Diwrnod |
| Llun 21ain Awst | WINDSOR FRENHINOL a'r GOGONEDDUS WISLEY | £535 | 5 Diwrnod |
| Mercher 23ain Awst | SIOE AGER A HEN BEIRIANNAU DORSET - BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Awst | TEITHIO A HWYLIO YN ARDAL Y LLYNOEDD | £530 | 5 Diwrnod |
| Sadwrn 2ail Medi | LLANDUDNO A CHAMLAS LLANGOLLEN | £545 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Medi | GWESTY'R BELGRAVE SANDS TORQUAY | £375 | 4 Diwrnod |
| Llun 11fed Medi | NORFOLK - SANDRINGHAM | £565 | 5 Diwrnod |
| Sul 17eg Medi | DUMFRIES a GALLOWAY YR ALBAN | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Medi | ARFORDIR A CHLOGWYNI DONEGAL YR IWERDDON | £675 | 6 Diwrnod |
| Llun 25ain Medi | GOLEUADAU A GOLEUANNAU BLACKPOOL | £360 | 5 Diwrnod |
| Sul 1af Hydref | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £535 | 6 Diwrnod |
| Gwener 6ed Hyd | LOOE ac ARFORDIR CERNYW | £355 | 4 Diwrnod |
| Gwener 13eg Hyd | HWYL a SBRI gyda CLIVE a'I Ffrindiau yn BOURNEMOUTH | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 20fed Hyd | AWYRENNAU, TRENNAU A CHERBYDAU | £410 | 4 Diwrnod |
| Gwener 27ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwener 3ydd Tach | TWRCI A THINSEL AR DARTMOOR | £345 | 4 Diwrnod |
| Gwener 10fed Tach | UCHELWYDD A GWIN YN BABBACOMBE | £295 | 4 Diwrnod |
| Llun 13eg Tach | CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO | £515 | 5 Diwrnod |
| Gwener 17eg Tach | MARCHNADOEDD NADOLIG - CHELTENHAM a GLOUCESTER | £245 | 3 Diwrnod |
| Sul 19eg Tach | TWRCI A THINSEL NADOLIG YN SCARBOROUGH | £510 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain | TWRCI A THINSEL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY | £440 | 5 Diwrnod |
| Gwener 1af Rhag | TREN Y GOLEUNI NADOLIG YN PAIGNTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Llun 4ydd Rhag | CRACER NADOLIG CERNYWEG YN LOOE | £410 | 5 Diwrnod |
| Gwener 8fed Rhag | PENWYTHNOS PARATOI AR GYFER Y NADOLIG YN LLUNDAIN | £290 | 3 Diwrnod |
| Sadwrn 30ain Rhag | DATHLU'R FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON | I / G | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP


"Lluniwch gerdd a seiniwch gân
Er budd yr henfro gyfan"

# Neuadd Gymunedol Maenclochog

Cynhelir y **75ain**

# EISTEDDFOD GADEIRIOL

(Dan nawdd Eglwysi Tabernacl a Llandeilo)

Dydd Llun 1 Mai 2023

i ddechrau am 1 o`r gloch

(Ni fydd y cystadlaethau agored yn dechrau tan 2 o'r gloch
Ni fydd y cystadlaethau i rai dros 12 oed yn dechrau cyn 5 o'r gloch)

Llywydd Anrhydeddus: Y Prifardd EIRWYN GEORGE
Llywydd y Dydd : ANN MORRIS, Penrhyncoch

BEIRNIAID
Cerdd: GWAWR OWEN, MA BMus LRAM ARCM, Caerdydd
Llefaru a Llên: Y Prifardd TUDUR DYLAN JONES
Llên y plant: ANN MORRIS, Maenclochog
Arlunio/Ffotograffiaeth: ALUN IFANS, Maenclochog
Cyfeilydd: MRS HEFINA JONES ALCM, Llangynin
01994 231240
Mynediad: Oedolion - £4.00. Plant dan 16 - am ddim

YSGRIFENYDDION
Mrs Julie Thomas, Maes-y-bryn, Llanboidy, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 OEL
Ffôn: 01994 448756
Mrs Catrin Williams, Dan-yr-Eglwys, Llangolman, SA66 7XN
Ffôn: 01437 532431

BYDD LLUNIAETH AR WERTH


Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ebrill** | | |
| Llun 26 | **Gwesty Warner - Nidd Hall, Swydd Efrog** | 4 |
| **Mai** | | |
| Llun 15 | **Hyfrydwch Sir Lincoln** | 5 |
| **Mehefin** | | |
| Mer 21 | **Diwrnod y Merched - Royal Ascot** | 3 |
| Mer 28 | **Yr Alban - Ucheldiroedd, Tren & Dolffiniaid** | 7 |
| **Gorffennaf** | | |
| Sad 1 | *Sioe Gerdd Take That - Greatest Days, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| 21 a 24 | *Tom Jones - Castell Caerdydd (Bws yn unig)* | 1 |
| 25 a 26 | Sioe Frehinol Cymru | 1 |
| **Awst** | | |
| Sad 5 | *Tom Jones - Castell Caerdydd (Bws yn unig)* | 1 |
| Llun 7 | **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** | 6 |
| Gwe 11 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru | 1 |
| Mer 30 | **NEWYDD Gerddi Highgrove ac ardal y Cotswolds** | 2 |
| **Medi** | | |
| Sad 2 | **Jersey** | 7 |
| Llun 11 | **Windsor a Gerddi Wisley** | 5 |
| Llun 18 | **Cider with Roses - Swydd Dyfnaint** | 5 |
| Llun 25 | **Iwerddon - Mynyddoedd Wicklow a Dilyn** | 6 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Hydref** | | |
| Sad 14 | **Stiwdio Warner, Llundain - Gwneud Harry Potter** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Heythrop, ardal y Cotswolds** | 5 |
| Sad 21 | *Drama - Life of Pi, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Maw 24 | **Llandudno - Gwesty'r Tynedale** | 5 |
| **Tachwedd** | | |
| Sad 4 | **Carnifal Golau Guto Fowk, Bridgwater** | 2 |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Sister Act, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Maw 21 | **Nadolig Ysblennydd Thursford** | 4 |
| Sad 25 | *Sioe Gerdd - Shrek, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 27 | **Twrci a Tinsel - Torquay (Gwesty'r Headland)** | 5 |
| **Rhagfyr** | | |
| Gwe 8 | **Nadolig Chatsworth a Chaer** | 3 |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd Aladdin, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |
| Sad 23 | **Gwyliau Nadolig - Gwesty'r Headland, Torquay** | 5 |
| **Chwefror 2024** | | |
| Sad 3 | *Sioe Gerdd Jesus Christ Superstar, CMC* | 1 |
| **Gorffennaf 2024** | | |
| Dyddiad i'w gadarnhau - | **Yr Alban - Ynysoedd Shetland** | 8-9 |
| **Tachwedd 2024** | | |
| Sad 9 | *Sioe Gerdd Wicked, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |

**Llyfryn 2023 ar gael nawr!!**

**Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!**

Wenfro
O! Gwyn ein byd – a gwyrdd!

# Pasg Prysur

**CYSTADLEUAETH** Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Cafodd Lilwen a Dilwen, yr ieir, Basg prysur iawn eleni, a gwerthwyd pob un o'r wyau isod.
**Defnyddiwch y rhestr brisiau i gyfrifo cyfanswm y gwerthiant.**



**Prisiau Wyau**

| | |
|---|---|
| Streipiog | 50c |
| Smotiog | £1 |
| Sgwariog | £1.50 |
| Calonnau | £2 |
| Serennog | £2.50 |

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/05/23**

**Beca Leeke o Bontyclun yw enillydd Cystadleuaeth Dathlu mewn Steil!**

Ateb: Sgert, brethyn, daffodil, baner, siol, pais, ffedog, het, cenhinen a betgwn oedd hoff bethau Mam-gu Iet-wen.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓡ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2023

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

## Diwrnod Gwaith Maes 2023 C.Ff.I Sir Gaerfyrddin

Bu cystadlu brwd trwy gydol y dydd yn Niwrnod Gwaith Maes y Sir a gynhaliwyd yng Ngholeg Gelli Aur, ar Ddydd Sadwrn 1af o Ebrill 2023.

Ifan Williams, C.Ff.I Llangadog enillodd teitl Stocmon Hŷn y Flwyddyn gyda Aaron Hughes, C.Ff.I Llangadog yn ail, Elgan Thomas, C.Ff.I San Ishmaels yn drydydd a Luned Jones, C.Ff.I Llanllwni yn bedwerydd. Yn Stocmon Iau y Flwyddyn, Lewis Gibbin, C.Ff.I Hendygwyn ar Daf daeth i'r brig yn y gystadleuaeth gyda Ruben Davies, C.Ff.I Llangadog yn ail, Manon Roberts, C.Ff.I Llangadog yn drydydd a Carys Morgans, C.Ff.I Llanfynydd yn bedwerydd. Bydd yr wyth yn mynd ymlaen i gynrychioli Sir Gâr ar lefel Cymru a phob lwc iddynt.

Bechgyn C.Ff.I Llanfynydd; Rhydian Davies, Rhys Jones a Sion Davies gipiodd y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Codi Ffens Adran Hŷn gyda C.Ff.I Penybont yn cipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Codi Ffens Iau. Da iawn i Gilbert Roberts, Gwion Jones-Howells a Carwyn Thomas. Pob lwc i'r ddau dîm ar lefel Cymru.

Dafydd Evans, C.Ff.I Llanllwni enillodd tasg 1; Ieuan Harries, C.Ff.I Llannon enillodd tasg 2; Aled Jones, C.Ff.I Llanllwni enillodd tasg 3 a Sioned Howells, C.Ff.I Llanllwni enillodd tasg 4 Sgiliau Peiriannau Fferm. Pob lwc i'r pedwar ar lefel Cymru.

Llongyfarchiadau i Owain Jones a Bethan Law o C.Ff.I San Pedr a enillodd y gystadleuaeth Fferm Ffactor Iau. Gethin Jones, C.Ff.I San Ishmaels enillodd y gystadleuaeth Arwerthu. Yn y gystadleuaeth Ffasiwn – Creu a Modelu, Celyn Thomas a Katie Sauro C.Ff.I Llanelli ddaeth i'r brig. Pob lwc i'r aelodau yma wrth iddynt gynrychioli'r Sir ar lefel Cymru. Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Jones, C.Ff.I Dyffryn Tywi ar gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth cerflunio gwaith metal wedi'u hail-gylchu.

Diolch i bawb wnaeth helpu gyda'r stiwardio. Mae'n rhaid diolch i Mr Jack Deal, Mr David Jones, a Choleg Gelli Aur am gael defnyddio eu stoc i'r Stocmon hefyd. Diolch hefyd i Arwel's Agri, Dalton's ATVs a Choleg Gelli Aur am gael defnyddio eu peiriannau, trelars a gatiau i'r Sgiliau Peiriannau Fferm. Diolch enfawr i'r beirniaid am eu gwaith diflino trwy gydol y dydd.

## Clwb Pêl-droed Llanboidy

Dim ond tair gêm sydd wedi bod i Glwb Pêl-droed Llanboidy dros y mis diwethaf. Dwy gêm i'r tîm cyntaf, ac un i'r ail dîm.

**Tîm 1af**

Teithiodd y tîm cyntaf i fyny i Landdewi Brefi ar yr 11eg Mawrth, i chwarae yn erbyn tîm da Sêr Dewi. Dechreuwyd y gêm yn dda iawn gyda Gethin Scourfield yn sgorio gôl gyntaf y gêm. Er hyn, sgoriodd Sêr Dewi 5 gôl cyn hanner amser. Roedd yr ail hanner llawer gwell gan Lanboidy wrth i ni sgorio 3 gôl i wneud yn 5-4 gydag ond munudau i fynd gyda'r goliau yn dod gan Gethin Scourfield eto, Dafydd Jones a Frazer Wyatt. Er hyn, gorffennodd y gêm yn 5-4. Canlyniad siomedig i'r bois.

Dydd Sadwrn, 8fed Ebrill oedd ein gêm nesaf – bron mis ers chwarae diwethaf. Crannog oedd y gwrthwynebwyr yng Nghwpan Bae Ceredigion. Cafwyd gêm agos iawn, gyda Crannog yn ennill 2-1 hanner amser. Daeth yr unig gôl yn yr ail hanner gan Llanboidy i'w wneud yn 2-2. Nick Jones sgoriodd y ddau gôl. Gyda hyn, aeth y gêm i mewn i amser ychwanegol. Crannog ffeindiodd y gôl bwysig, gan ennill 3-2 erbyn diwedd yr amser ychwanegol. Siom i Lanboidy.

Bydd gêm olaf y tymor adref yn erbyn Crymych.

**2il dîm**

Dim ond un gêm mae'r 2il dîm wedi chwarae ers 4ydd Mawrth a hynny yn erbyn ail dîm Crannog ar ddydd Sadwrn, 8fed Ebrill yng nghwpan Percy Eldridge. Cafwyd perfformiad gwych gan yr ail dîm, gan ennill 3-1. Guto Huws sgoriodd y gôl gyntaf, ei gôl gyntaf i Llanboidy, cyn i'r capten Chris Bowen ei wneud yn 2-0. Cafodd Crannog gôl yn ôl gyda 15 munud i fynd ond gydag ond munudau ar ôl, cafodd Dion Morgan gôl i sicrhau'r fuddugoliaeth i'r ail dîm, gan sicrhau lle yn y rownd nesaf o'r cwpan.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r gemau/ ymarferion – http://www.ceredigionleague.co.uk/ neu gyfryngau cymdeithasol y Clwb.

*Rhodri Lewis*

*Clwb Rygbi Hendygwyn - parhad o dudalen 39*

**Dynion**

Mawrth 25ain - Castell Newydd 21-70. Colli'n drwm erbyn tim cryf Castell Newydd Emlyn sydd ar frig y gyn-ghrair gyda Crymych ar hyn o bryd.
Ebrill 1af- Cafodd y gêm ei gohirio oherwydd gêm derfynol plat y menywod a daeth y chwaraewyr gyda ni i Gaerdydd i'w cefnogi.

**Ieuenctid**

Dim ond un gêm mae'r Ieuenctid wedi chwarae yn ystod y mis diwethaf, adref yn erbyn Aberystwyth ar Mawrth 23ain. Gêm gyfartal 7 - 7, cais i Monty Milton a trosiad gan Lennon Reynolds.

**Teigroed Taf**

Bydd hwb Teigroed Taf yn dechrau ar y 19eg o Ebrill -i ferched dan 8,10,12,14,16,18 oed. Croeso i bawb, os ydych wedi chwarae o'r blaen, neu yn awyddus i ddechrau chwarae am y tro cyntaf. 6pm yn Parc Dr Owen

Mae mis prysur a rhagor o gemau i ddod. Bydd y me-nywod yn ceisio ennill y gyngrair. Dynion yn dal at ei gi-lydd ar ôl tymor hir a chaled a'r Ieuenctid yn gobeithio dod adre a Plât Sir Benfro.

*Suzanne Davies*

*Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 40*

Ein gêm nesaf oedd i ffwrdd yn erbyn Aberaeron ar benwythnos y Pasg gyda her anodd arall o'n blaen. Daethom allan o'r blociau yn fuan iawn gyda Dafydd Evans a Jac Howells yn sgorio dau gais cynnar gyda Dan Griffiths yn cicio'r ddau drosiad. Cafodd ein llwyddiant cynnar ei atal, wrth i ni fynd ochr anghywir y dyfarnwr a cael ein cosbi'n rheolaidd. Yn anffodus, gwnaethom ildio dau gais yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, fe wnaethom chwarae'n wych yn yr ail hanner a sgoriwyd ceisiau gan Rhodri Jones, Jac Howells, Brandon Davies a Scott Newton, llwyddodd Dan Griffiths I drosi un ohonynt. Cafwyd ymdrech arbennig gan y garfan i gyd wrth sicrhau buddugoliaeth haeddiannol o 13 – 36.

Mae gennym 8 o gemau cynghrair i'w chwarae yn ystod y mis nesaf, (wrth i ni geisio dal lan gyda'r gemau cafodd ei gohirio oherwydd tywydd gwael a'r gemau cwpan) sy'n golygu byddwn yn chwarae ar nos Fercher yn ogystal â phrynhawn Sadwrn. Rydym yn edrych ymlaen at ddiweddglo cyffrous i'r tymor, wrth i ni anelu at frig y gynghrair.

**Ebrill**
12fed - Doc Penfro (bant)
15fed - Aberteifi (adref)
19eg - Tyddewi (adref - i'w gadarnhau)
22ain - Llanybydder (bant
29ain - Llangwm (adref)

**Mai**
3ydd - Neyland (adref – i'w gadarnhau)
6ed - Llanbed (adref)
13eg - Llanbed (bant)

Bu ein tîm datblygu yn chwarae yn erbyn tîm datblygu Felinfoel yn rownd cyn derfynol Cwpan Ardal Llanelli ar Ebrill 8fed. Fe wnaeth y bechgyn chwarae'n dda ac ymdrechu'n galed ond colli 16 – 23 wnaethant ar ôl bod ar y blaen 16 – 13. Er gwaetha'r golled, byddant yn mynd ymlaen i chwarae yn rownd derfynol y Plat yn erbyn Derwyddon Athletic Caerfyrddn ym Mharc y Sgarlets ar Mai 13eg am 1.30 o'r gloch. Pob lwc i chi bois!

*Gwyndaf Williams*

# Clwb Rygbi Hendygwyn

**Menywod**

Mis y menywod fu mis Mawrth heb os nac onibai. Mawrth 19eg - Hendy Gwyn 41 Gwernyfed 0. Sgoriodd Danielle Lawrence 3 cais a sgoriodd Marged Williams, Leah Coombes, (cais cyntaf i'r clwb) a Mari Griffiths gais yr un. Llwyddodd Macey Bowen gyda 3 trosiad. Mawrth 26ain- Blaendulais 19 Hendy Gwyn 61. Sgoriodd Danielle Lawrence, Marged Williams a Mari Griffiths ddau gais yr un Bethany Williams, Jazmine Jones, (pwyntiau cyntaf i'r clwb) a Macey Bowen gais yr un. Llwyddodd Macey Bowen gyda 7 trosiad a Mari Griffiths gyda 1.

Rownd derfynol y Plat yn Stadiwm Principality - Porth Tywyn 34 Hendy Gwyn 38. Cynhaliwyd rownd derfynol y Plat yn Stadiwm y Principality, Caerdydd ar brynhawn Sadwrn, Ebrill 1af. Llongyfarchiadau mawr i'r menywod ar ei buddugoliaeth wych yn erbyn Porth Tywyn, mewn gem hynod o gystadleuol a chyffrous. Roedd Hendy Gwyn yn ennill o 21-17 ar yr egwyl, o ganlyniad i geisiau Nat Walsh, Marged Williams a Macey Bowen. Llwyddodd Macey gyda dau drosiad a Mari Griffiths gyda un. Daeth Porth Tywyn nôl yn gryf gan sgorio cais gwych yn gynnar yn yr ail hanner. Ymatebodd Hendy Gwyn yn fuan, pan sgoriodd Rebecca Swansain gais. Ychydig wedi hynny, sgoriwyd cais gorau'r gêm gan Cadi Williams, seren y gêm a llwyddod Macey Bowen gyda'r trosiad. Daeth Porth Tywyn nôl unwaith yn rhagor gan sgorio dau gais ym munudau olaf y gêm. Roedd Porth Tywyn yn meddwl ei bod nhw wedi ennill y gêm ond roedd syniadau gwahanol gyda Hendy Gwyn - o sgrym olaf y gêm, llwyddod Danielle Lawrence i sgorio cais yn y cornel, i sicrhau buddugoliaeth nodedig.

Bu tipyn o ddathlu wedi'r gêm, ymysg y chwaraewyr a'r cefnogwyr!



Tîm merched buddugol Clwb Rygbi Hendygwyn gyda'r Plât

*parhad ar dudalen 38*

# CHWARAEON

## Clwb Rygbi San Clêr

Mae'r garfan wedi cael cyfnod prysur yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda 2 gêm gynghrair a rownd gyn derfynol Cwpan Cenedlaethol Adran 3 Undeb Rygbi Cymru. Ar ôl tynnu Clwb Rygbi Vardre ar y 25ain o Fawrth, cawsom wybod byddem yn chwarae yng Nghlwb Rygbi Nantgaredig fel lleoliad niwtral. Roedd y tywydd yn deg ac roedd gan y ddau dîm nifer sylweddol o gefnogwyr. Ymadawodd tri bws o gefnogwyr â Sanclêr (diolch Bysiau Jones Login) er mwyn gwylio gêm oedd yn addo i fod yn un cystadleuol, gyda'r ddau dîm yn mynd yn dda yn y cwpan ac yn eu priod gynghreiriau. Profodd yr hanner cyntaf yn ornest gwpan nodweddiadol gyda'r ddau dîm yn amddiffyn yn gadarn. Er i'r Seintiau ddechrau'n gryf gan sicrhau llawer o feddiant cynnar, fe fethon ni â chael y sgôr holl bwysig. Roedd hyn yn caniatáu i Vardre gael dylanwad ar y gêm gyda'i blaenwyr mawr a'u cefnwyr ystwyth yn profi ein hamddiffyn ar sawl achlysur. Y sgor ar yr egwyl oedd 6 - 6 gyda llawer i chwarae drosto! Fe ddechreuon ni'r ail hanner yn dda ac yn fuan fe aethon ni dros y linell gais, ond ni chafodd y cais ei ganiatau gan y dyfarnwr.



Roedd gwallau anodweddiadol a gor chwarae ar ran y Seintiau, wedi caniatau i Vadre fanteisio wrth sgorio dau tros gais a cic gosb. Er ein bod 23 - 6 i lawr, ac yn pwyso'n drwm, daliodd amddiffyn Vardre yn gadarn a dim ond ym munudau olaf y gêm croesodd Dafydd Evans am gais hyfryd, yn dilyn cyfnod gwych o chwarae gan Jac Howells, Tomos Williams a Scott Newton. Fe gafodd y cais ei drosi gan Dan Griffiths, gwnaeth yntau hefyd lwyddo gyda dau gic gosb yn ystod y gêm. Y sgor terfynol oedd San Cler 13 Vardre 23. Gwnaeth Vardre fynd ymlaen i chwarae yn erbyn Abertillery yn y rownd derfynol ar Ebrill 8fed, gan golli 34 -27 yn ei herbyn. Diolch o galon i'r chwaraewyr, hyfforddwyr, noddwyr a cefnogwyr am siwrnai dda yn y cwpan tymor yma.



Wrth dychwelyd at ddyletswyddau'r gynghrair, doedd dim gwell ffordd i fownsio'n ôl o'n colled cwpan na chroesawu ein cymdogion Talacharn i Barc Griffith Jones ar Ebrill 1af. Profodd hon i fod yn gêm agos tu hwnt ac roedd y gêm yn y fantol wrth nesau at hanner amser, yn dilyn cais gan Liam Rogers a cic gosb gan Dan Griffiths. Parhaodd Talacharn i'n rhoi ni dan bwysau a gyda'u blaenwyr yn rheoli, roeddent mewn safle da i sicrhau buddugoliaeth. Dangosodd y Seintiau fodd bynnag benderfyniad, gyda'r cefnwr Rhodri Jones yn gwneud nifer o rediadau pendant, ac yn dilyn cyfnod o bwysau parhaus a pasio slic, lledwyd y bêl allan yn llydan i Dan Griffths sgorio cais wych. Gwnaeth ef drosi ei gais i sicrhau buddugoliaeth o 15 – 13. Cafwyd cefnogaeth wych i'r gêm a bu Dafydd Pantrhod a'i fand yn diddanu'r cefnogwyr a'r noddwyr y noson honno.



Gêm San Clêr yn erbyn Talacharn

*Lluniau: Chris Rees*

*parhad ar dudalen 39*